Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 14 Gorffennaf 2011**

Amser:
**09:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Marc Wyn Jones**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8120 / 029 2089 8120
pwyllgor.CCLll@wales.gov.uk

## Agenda

**1. Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**

**2. Cytuno'n ffurfiol ar enwebiadau i banel dethol Comisiynydd y Gymraeg**

**3. Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol - Trafod materion o fewn y portffolio a chynigion ar gyfer y Flaenraglen Waith**

**4. Papurau i'w nodi** (Tudalennau 1 - 80)

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

# Adroddiad Etifeddiaeth

Mawrth 2011

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8597
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: Community.Culture.Comm@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
## Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

## Adroddiad Etifeddiaeth

Mawrth 2011

**The Communities and Culture Committee**
The main function of scrutiny committees is to examine within their remit the expenditure, administration and policy of the government and associated public bodies.

The Communities and Culture Committee's remit covers:
- housing;
- community safety;
- community Inclusion including Communities First and the Spatial Plan;
- Welsh Language, sport and culture.

**Powers**
The Committee was established on 26.6.07 as one of the Assembly's scrutiny committees. Its powers are set out in the National Assembly for Wales' Standing Orders, particularly SO 12. These are available at **www.assemblywales.org**

**Aelodau'r Pwyllgor**



**Sandy Mewies (Cadeirydd)**
Delyn
Llafur



**Mohammad Asghar**
Dwyrain De Cymru
Ceidwadwyr Cymreig



**Eleanor Burnham**
Gogledd Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Alun Davies**
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Llafur



**Mark Isherwood**
Gogledd Cymru
Ceidwadwyr Cymreig



**Bethan Jenkins**
Gorllewin De Cymru
Plaid Cymru



**Dai Lloyd**
Gorllewin De Cymru
Plaid Cymru



**Lynne Neagle**
Tor-faen
Llafur



**Joyce Watson**
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod ei fodolaeth:



**Janice Gregory (Cadeirydd blaenorol)**
Ogwr
Llafur



**Paul Davies**
Preseli Sir Benfro
Ceidwadwyr Cymreig



**Lesley Griffiths**
Wrecsam
Llafur



**Peter Black**
Gorllewin De Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Nerys Evans**
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Plaid Cymru



**Alun Cairns**
Gorllewin De Cymru
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ....... 7

**Ein hargymhellion i'r pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu** ....... 8

**1. Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant y Trydydd Cynulliad.** ....... 9

Pwy ydyn ni? ....... 9

Beth yw adroddiad etifeddiaeth? ....... 9

Ffyrdd defnyddiol o weithio ....... 10

Craffu'n rheolaidd ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig ....... 10

Craffu'n ddwys ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig ....... 11

Monitro deddfwriaeth berthnasol gan y DU, yr UE a'r Cenhedloedd Unedig ....... 13

Ymgysylltu Allanol ....... 14

Materion trawsbynciol eraill ....... 15

**2. Materion o fewn ein cylch gwaith** ....... 16

**3. Tai** ....... 17

Gwneud y Mwyaf o'r Sector Tai Rhent Preifat yng Nghymru (Chwefror 2011) ....... 17

**4. Diogelwch Cymunedol** ....... 18

Cam-drin Domestig yng Nghymru (Rhagfyr 2008) ....... 18

Cyfiawnder Ieuenctid: Profiad Plant Cymru mewn Sefydliadau Diogel (Chwefror 2010) ....... 20

Effaith bosibl Mesur Seneddol Llywodraeth y DU ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol ar ddiogelwch cymunedol yng Nghymru (Chwefror 2011) ....... 23

**5. Cynhwysiant Cymunedol** ....... 25

Ariannu Cyrff y Sector Gwirfoddol yng Nghymru (Mai 2008) ....... 25

Cynhwysiant Ariannol ac Effaith Addysg Ariannol (Tachwedd 2010); ....... 27

**6. Yr Iaith Gymraeg, chwaraeon a diwylliant ........................................... 29**

Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru (Mehefin 2009)..... 29

Y Diwydiant Papurau Newydd yng Nghymru (Mehefin 2009) .......... 31

Hyrwyddo Celfyddydau a Diwylliant Cymru ar Lwyfan y Byd (Gorffennaf 2009)........................................................................ 32

Gwneud yn Fawr o Ddigwyddiadau Chwaraeon Mawr yng Nghymru (Mehefin 2010). ........................................................................ 34

Hygyrchedd Gweithgareddau Celfyddydol a Diwylliannol yng Nghymru (Chwefror 2011) ............................................................ 35

## Rhagair y Cadeirydd

Bu’n fraint bod yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ers mis Ionawr 2010. Dros y 15 mis diwethaf, mae’r Pwyllgor wedi cyfrannu at amrywiaeth eang o ymchwiliadau ac ymholiadau pwysig a phur ddadleuol weithiau.

Rwyf yn ddiolchgar iawn i holl Aelodau’r Pwyllgor, rhai’r gorffennol a’r presennol, am eu hymroddiad i ddal Llywodraeth Cymru i gyfrif. P’un ai’n craffu ar Weinidogion, siarad gyda phlant mewn ystadau diogel, neu'n cymryd cwestiynau gan y cyhoedd ar gynnwys adroddiadau'r Pwyllgor, mae fy nyled wedi bod yn drwm iawn pob tro i'w proffesiynoldeb a’u hymroddiad. Hoffwn ddiolch a thalu teyrnged i waith Janice Gregory AC am ei rôl yn cadeirio’r pwyllgor hwn rhwng mis Medi 2007 a mis Rhagfyr 2009. Mae pob un o aelodau’r Pwyllgor yn falch, fel y dylent fod, o’r hyn y mae'r Pwyllgor wedi'i gyflawni, ond rydym hefyd yn cydnabod bod llawer mwy i'w wneud eto. Rydym yn wynebu cyfnod economaidd caletach na’r un oedd yn ein hwynebu ar ddechrau’r Trydydd Cynulliad, ac mae’n bwysicach fyth bod pob ceiniog o wariant cyhoeddus yn cael ei gwario’n effeithiol ar ran Cymru a’i phobl. Ar yr un pryd, mae’n gwbl greiddiol nad yw arian yn cael ei dynnu oddi ar y lleiafrifoedd sy’n agored i niwed, neu oddi ar 'faterion cudd' fel cam-drin yn y cartref, a'i wario ar faterion eraill mwy 'poblogaidd'.

O’r herwydd, rydym wedi datblygu’r adroddiad etifeddiaeth hwn i roi ‘man cychwyn’ defnyddiol i’r pwyllgor(au) a fydd yn olynu’r un presennol wrth iddynt ystyried pa waith i’w wneud. Yn amlwg, dim ond un o nifer o adnoddau at ddefnydd y pwyllgor(au) newydd fydd hwn, ond rydym yn gobeithio y bydd yn ddefnyddiol o ran awgrymu meysydd posibl i ddechrau craffu arnynt, a hefyd i'w goleuo ynghylch ffyrdd o weithio sydd wedi bod yn arbennig o effeithiol i ni yn y gorffennol.

I gloi, ar ran y Pwyllgor, hoffwn ddiolch o galon i'r holl unigolion a'r sefydliadau a gynigiodd gyfoeth eu profiad a'u cyngor inni dros y 4 blynedd diwethaf: p'un ai drwy gyfarfodydd pwyllgor ffurfiol, papurau ysgrifenedig, holiaduron neu ddeialog anffurfiol yn ystod ein hymweliadau. Heb eu harbenigedd a'u gwaith caled, byddai wedi bod yn amhosibl inni gyflawni ein rôl.

## Ein hargymhellion i'r pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu

Mae ein hargymhellion i'r pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu wedi eu crynhoi isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Dylid cyfeirio at y tudalennau perthnasol yn yr adroddiad hwn i weld ym mha gyd-destun y gwnaethom yr argymhellion hyn.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu yn rhoi sylw i'r meysydd pryder sydd wedi eu nodi'n flaenorol yng nghynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. (Tudalen 11)

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu yn ystyried y deisebau a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, wrth benderfynu ar bynciau ymchwiliad y Pwyllgor. (Tudalen 13)

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu yn parhau i ganolbwyntio'n arbennig ar ymdrechion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thrais yn y cartref. (19)

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu yn monitro cefnogaeth strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgyrchoedd addysg ariannol a ddatblygir gan bartneriaid, ac yn cymeradwyo'r ymgyrchoedd hynny. (Tudalen 28)

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod y pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu yn ystyried cynnal ymchwiliad pellach i sut mae darlledu (ym mhob un o ffurfiau'r cyfryngau) yn gweithio yng Nghymru.(Tudalen 30)

# 1. Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant y Trydydd Cynulliad.

**Pwy ydyn ni?**

1. Un o bwyllgorau trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, sy'n cynnwys Aelodau o bob un o'r pedair plaid wleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad.

2. Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2007 fel un o bedwar pwyllgor craffu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

3. Nid yw'r Pwyllgor yn rhan o Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am archwilio gwariant, gweinyddiaeth a pholisi Llywodraeth Cymru, a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, yn enwedig yng nghyswllt Tai, Diogelwch Cymunedol, Cynhwysiant Cymunedol, yr Iaith Gymraeg, Chwaraeon a Diwylliant.

**Beth yw adroddiad etifeddiaeth?**

4. Ar 24 Mawrth 2011, cyfarfu'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant am y tro olaf cyn etholiad y Cynulliad ar 5 Mai 2011, a fydd yn sefydlu pwy fydd Aelodau'r Pedwerydd Cynulliad.

5. Ni wyddom eto sut fydd Pwyllgorau'n cael eu trefnu yn y Pedwerydd Cynulliad. Ni wyddom ai un neu sawl Pwyllgor fydd yn parhau gyda'r rôl o archwilio gwariant, gweinyddiaeth a pholisi Llywodraeth Cymru, a chyrff cyhoeddus cysylltiedig.

6. Ond yr hyn a wyddom yw y bydd materion yng nghyswllt Tai, Diogelwch Cymunedol, Cynhwysiant Cymunedol, yr Iaith Gymraeg, Chwaraeon a Diwylliant yn parhau i gael eu harchwilio gan y pwyllgor(au) a fydd yn olynu'r un presennol.

7. O'r herwydd, rydym wedi creu'r adroddiad etifeddiaeth hwn gyda'r bwriad o hysbysu'r pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu ynghylch:

- ffyrdd o weithio sydd wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol i ni yn y gorffennol, a myfyrdodau ar ein profiadau;
- yr ymchwiliadau penodol a gyflawnwyd gennym yn ystod y cynulliad hwn;

- a'r materion a nodwyd gennym ond na allwn ymchwilio iddynt oherwydd yr etholiad sydd ar ein gwarthaf, ond y bydd y pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu efallai am symud ymlaen arnynt.

**Ffyrdd defnyddiol o weithio**

8. Mae gan y rhan fwyaf o Bwyllgorau Craffu bedwar maes gwaith yn gyffredinol:

- craffu'n rheolaidd ar wariant, gweinyddiaeth a pholisi Llywodraeth Cymru (a chyrff cyhoeddus cysylltiedig);
- craffu'n ddwys ar wariant, gweinyddiaeth a pholisi Llywodraeth Cymru (a chyrff cyhoeddus cysylltiedig);
- monitro cynigion deddfwriaeth perthnasol gan y Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd a'r Cenhedloedd Unedig;
- ymgysylltu allanol.

**Craffu'n rheolaidd ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig**

9. Aethom ati i wneud hyn drwy gynnal cyfarfodydd 'craffu cyffredinol' rheolaidd gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Gweinidog dros Dreftadaeth a'r Dirprwy Weinidog dros Dai. Roeddem yn tueddu i gynnal un o'r sesiynau 'craffu cyffredinol' hyn unwaith y tymor, lle'r oeddem yn dal un o'r Gweinidogion i gyfrif ar ystod o faterion a oedd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor a phortffolio'r Gweinidog.

10. Roeddem hefyd yn craffu, yn flynyddol, ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, gan anfon adroddiad o'n darganfyddiadau at y Pwyllgor Cyllid bob blwyddyn.

11. Yn enwedig, yn dilyn cyhoeddi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011-2012, derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yn nodi nifer o feysydd pryder yn y gyllideb ddrafft ar gyfer cyrff gwirfoddol. Er inni graffu ar nifer o'r materion hyn, rydym yn rhagweld y bydd gan y pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu efallai ddiddordeb arbennig ym meysydd pryder penodol y CGGC ym mlynyddoedd 2 a 3 y gyllideb ddrafft.[1] Er enghraifft, nododd y CGGC er bod y cyllid ar gyfer cam-drin yn y cartref yn sefydlog ym

[1] CC(3)-18-10 papur 8

mlwyddyn un,[2] ei fod yn disgyn 28.6% ym mlwyddyn 2 a 40% ym mlwyddyn 3.[3]

**Rydym yn argymell bod y pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu yn rhoi sylw i'r meysydd pryder sydd wedi eu nodi'n flaenorol yng nghynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.**

### Craffu'n ddwys ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig

12. Rydym wedi nodi mewn sawl un o'n hadroddiadau ein bod yn aml:

> "yn gwneud y gwaith hwn drwy gynnal ymchwiliad i fater penodol. Mae hyn yn golygu y byddwn yn siarad â llawer o wahanol bobl i gasglu tystiolaeth am yr hyn sy'n digwydd ynghylch mater penodol, cyn cyflwyno ein canlyniadau i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn ein galluogi i ddal gwaith Gweinidogion Llywodraeth Cymru i gyfrif, ac mae hefyd yn ein galluogi i awgrymu argymhellion am sut y gallai Llywodraeth Cymru wella ei gwaith yng nghyswllt mater penodol."[4]

13. Fel Pwyllgor, wrth benderfynu ar bynciau ein hymchwiliadau, roeddem yn ystyried:

- ein syniadau ein hunain fel Aelodau unigol, ar sail ein profiadau a'n diddordebau gwleidyddol a phersonol;
- awgrymiadau gan Randdeiliaid, drwy gyswllt gyda'r Pwyllgor yn gyffredinol, neu gydag Aelodau unigol;
- materion a godwyd yn ystod trafodaethau ehangach Cynulliad Cenedlaethol Cymru (fel deisebau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Deisebau);
- dadansoddiadau o faterion pryder newydd posibl sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, ac a nodwyd gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

14. Wrth nodi pa ymchwiliadau i flaenoriaethu eu cyflawni, roeddem yn ystyried:

---

[2] CC(3)-18-10 papur 8
[3] CC(3)-18-10 papur 8
[4] Gweler, er enghraifft: Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, Gwneud y Mwyaf o'r Sector Tai Rhent Preifat yng Nghymru, 4 Chwefror 2011, Para 3.

- perthynas cwmpas yr ymchwiliad â'n cylch gwaith ni fel pwyllgor;[5]
- effaith bosibl ymchwiliad gan y Pwyllgor;[6]
- beth fyddai ei angen arnom i gynnal yr ymchwiliad;[7]

15. Weithiau, nodwyd maes eang yr oeddem am gynnal ymchwiliad iddo, cyn cadarnhau wedyn y materion penodol yr oeddem am edrych yn fanwl arnynt. Er enghraifft, wrth benderfynu ar ffocws ein hymchwiliad i 'Gyfiawnder Ieuenctid', penderfynodd y Pwyllgor ymgynghori'n ffurfiol gyda nifer o randdeiliaid allweddol oedd ag arbenigedd neu fudd strategol clir ym maes cyfiawnder ieuenctid, er mwyn helpu i hysbysu cwmpas yr ymchwiliad. Gofynnwyd i'r rhanddeiliaid hyn ystyried 5 cwestiwn penodol yn eu hymateb ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Derbyniodd y Pwyllgor ymatebion ysgrifenedig gan wyth o Ymgyngoreion i'r ymarfer ymgynghori byr hwn (gan gynnwys y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol). O ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn, penderfynwyd y byddai'r ymchwiliad i Gyfiawnder Ieuenctid yn canolbwyntio'n neilltuol ar 'brofiadau Plant Cymru mewn Sefydliadau Diogel'.

16. Er nad oedd unrhyw un o'n hymchwiliadau yn uniongyrchol ddyledus i ddeisebau a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, cawsom gyswllt gyda'r Pwyllgor Deisebau ar faterion yn ymwneud â dau o'n hymchwiliadau. Yn ein hymchwiliad i 'Gynhwysiant Ariannol ac Effaith Addysg Ariannol', nododd y Pwyllgor fod Shelter Cymru wedi cyflwyno deiseb yn galw ar y Cynulliad i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i gynnwys gwybodaeth ac addysg am adael cartref yn y

---

[5] Roedd ein hymchwiliadau i gyd yn canolbwyntio ar bynciau a oedd o fewn ein cylch gwaith, ond gan fod cylchoedd gwaith Pwyllgorau yn eithaf eang, wrth flaenoriaethu ymchwiliadau, roeddem hefyd yn ystyried a oedd unrhyw Bwyllgorau eraill yn cyflawni ymchwiliadau tebyg. Roeddem yn ymdrechu, dros gyfnod y Trydydd Cynulliad, i roi sylw i ystod eang o faterion o fewn ein cylch gwaith, yn lle dim ond un maes o fewn ein cylch gwaith.

[6] Er ein bod yn ystyried ei bod yn bwysig peidio â rhagdybio casgliadau ein hymchwiliad, wrth benderfynu a ddylid blaenoriaethu ymchwiliad, roeddem yn ystyried a oedd unrhyw dystiolaeth (gan gynnwys tystiolaeth anecdotaidd) i awgrymu y byddai pobl Cymru, neu grwpiau penodol o bobl yng Nghymru, yn elwa o gael ymchwiliad. Felly hefyd, roeddem yn ystyried a oedd testun ymchwiliad posibl yn destun pryder clir i'r cyhoedd neu'n ddadleuol. Ystyriodd y Pwyllgor hefyd lle'r oedd Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd gyda'i phrosesau gwneud penderfyniadau ei hun, fel bod gennym syniad gwell o unrhyw derfynau amser pwysig yr oedd angen inni eu cwrdd er mwyn dylanwadu ar bolisi neu ddeddfwriaeth.

[7] Er enghraifft, ystyriodd y Pwyllgor ba oblygiadau adnoddau ac amserlen (gan gynnwys slotiau Cyfarfodydd y Pwyllgor) fyddai eu hangen arnom i gyflawni ymchwiliadau penodol.

cwricwlwm cenedlaethol.[8] Roeddem yn cydnabod bod yna or-gyffwrdd rhwng y ddeiseb a'n hymchwiliad i gynhwysiant ariannol.[9] Felly hefyd, yn ein hadroddiad ar 'hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru', roeddem yn cydnabod:

> "bod Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd yn ystyried deisebau a gyflwynwyd gan sefydliadau unigol sy'n ymwneud â darparu Theatr mewn Addysg sydd wedi colli eu cyllid. Edrychwn ymlaen at ystyriaeth y Pwyllgor Deisebau o ddeisebau'r sefydliadau unigol hyn."[10]

17. Rydym yn ystyried y byddai'n syniad da iawn pe bai'r pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu yn ystyried y deisebau a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Rydym yn argymell bod y pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu yn ystyried y deisebau a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, wrth benderfynu ar bynciau ymchwiliad y Pwyllgor.**

18. Roedd hyd ein hymchwiliadau yn amrywio. Er enghraifft, cytunodd y Pwyllgor ar gylch gorchwyl ar gyfer ein hymchwiliad i 'Gyfiawnder Ieuenctid: Profiad Plant Cymru mewn Sefydliadau Diogel' ym mis Mawrth 2009, cyn adrodd ym mis Chwefror 2010. Mewn cyferbyniad, cytunodd y Pwyllgor ar gylch gorchwyl ar gyfer ymchwiliad i 'Effaith bosibl Mesur Seneddol Llywodraeth y DU ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol ar ddiogelwch cymunedol yng Nghymru' ar 13 Ionawr 2011, cyn cyflwyno adroddiad o'n darganfyddiadau i Bwyllgor Mesurau Cyhoeddus Senedd y DU ar 17 Chwefror 2011.

19. Mae'r Pwyllgor yn ystyried y byddai'n syniad da cynnal ymchwiliadau hir, manwl a rhai byr gyda ffocws mwy penodol, a chredwn y gallai'r pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu gael defnydd o gynnal y ddau fath o ymchwiliad, gan ddibynnu ar destun eu hymholiadau.

### Monitro deddfwriaeth berthnasol gan y DU, yr UE a'r Cenhedloedd Unedig

20. Roeddem yn ceisio aros yn ymwybodol o'r cynigion deddfwriaethol perthnasol, er mwyn eu hystyried wrth gynllunio ein

---

[8] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 20 Mai 2010, Para 64
[9] Ibid
[10] Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, Hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru, 3 Chwefror 2011, Para 255

blaenraglen waith. Gwnaed hyn yn bennaf drwy ddadansoddi materion pryder newydd posibl sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, ac a nodwyd gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

21. Yn benodol, cyflawnodd y Pwyllgor ymchwiliad byr i effaith bosibl Mesur Seneddol Llywodraeth y DU ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol ar ddiogelwch cymunedol yng Nghymru. Mae'r cyfrifoldeb dros plismona a thrwyddedu y tu allan i sgôp Llywodraeth Cymru ac, o'r herwydd, ystyriodd y Pwyllgor a fyddai'n briodol inni graffu ar effaith y ddeddfwriaeth hon. Fodd bynnag, roeddem yn cydnabod bod yr heddlu yn un o'r prif bartneriaid gyda darparu llawer o bolisïau Llywodraeth Cymru. Ystyriodd y Pwyllgor y gallai unrhyw newidiadau i atebolrwydd a llywodraethu'r heddlu gael effaith ganlyniadol sylweddol ar faterion fel diogelwch cymunedol yng Nghymru, sy'n faes cyfrifoldeb sydd wedi'i ddatganoli i Gymru, a hefyd o fewn cylch gwaith ein Pwyllgor.

**Ymgysylltu Allanol**

22. Roedd ymgysylltu allanol yn torri ar draws pob un o'n meysydd gwaith, gan adlewyrchu penderfyniad Cynulliad Cymru i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

23. Er enghraifft, wrth gynnal ein hymchwiliadau, derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth gan randdeiliaid drwy ddulliau ffurfiol fel papurau ysgrifenedig a thrwy fynychu cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol. Roeddem hefyd yn cydnabod ei bod yn syniad da cael gwybodaeth gan unigolion, grwpiau bach o bobl / sefydliadau na fyddent efallai mor barod i gyfrannu at weithgareddau mwy ffurfiol. Am y rheswm hwn bu'r Pwyllgor hefyd:

- yn ymweld â chartref diogel i blant ac amrediad o sefydliadau yn cynnwys troseddwyr ifanc o Gymru, mewn sefydliadau yng Nghymru a Lloegr (fel rhan o'n hymchwiliad i Gyfiawnder Ieuenctid: Profiad Plant Cymru mewn Sefydliadau Diogel). Yn ystod yr ymweliadau hyn, derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth gan staff a throseddwyr ifanc. Roedd y bobl ifanc yn aml yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain gyda ni (a staff y Pwyllgor), er mwyn creu awyrgylch agored fel eu bod yn gallu siarad am eu profiadau o sefydliadau diogel;
- yn ymweld ag ystod o brosiectau yn darparu addysg ariannol yng Nghymru, a chawsant gyfle i siarad gydag oedolion a

phlant a oedd yn derbyn yr addysg yma (fel rhan o'n hymchwiliad i Gynhwysiant Ariannol ac effaith Addysg Ariannol);

- yn anfon holiadur allan i gasglu tystiolaeth am brofiadau'r cyhoedd o gynhwysiant ariannol ac addysg ariannol, a oedd ar gael ar dudalen gwe'r Pwyllgor ac wedi'i ddosbarthu fel copi caled i'r cyhoedd mewn digwyddiadau dros yr haf. Cafodd 57 o holiaduron eu llenwi'n ddienw.

24. Ystyriwn fod yna werth clir yn y dulliau 'arloesol' llai traddodiadol hyn o gasglu tystiolaeth, a chredwn y dylai'r pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu eu defnyddio lle bo hynny'n briodol.

25. Roeddem hefyd yn ceisio gwneud ein hadroddiadau yn hygyrch. Er enghraifft, cynhyrchodd y Pwyllgor grynodebau mewn Cymraeg a Saesneg clir o'n hadroddiadau ar 'Gyfiawnder Ieuenctid: Profiad Plant Cymru mewn Sefydliadau Diogel' a 'Cynhwysiant Ariannol ac effaith Addysg Ariannol'. Rhoesem hefyd gyfle i'r rhanddeiliaid a oedd wedi cyfrannu at ddatblygu ein hymchwiliadau ofyn cwestiynau i ni am ein hadroddiadau mewn nifer o achlysuron i lansio ein hadroddiadau (gan ddefnyddio fformat '*Question Time*' y BBC).

26. O fis Ionawr 2011 ymlaen, penderfynodd y Pwyllgor wneud ei flaenraglenni gwaith ar gael i'r cyhoedd ar ei dudalennau gwe, fel y gallai rhanddeiliaid sydd â diddordeb nodi unrhyw faterion a allai fod o ddiddordeb iddynt.

27. Yn olaf, roeddem yn ceisio ateb ceisiadau ad-hoc am wybodaeth ac i ymgysylltu. Er enghraifft, gwirfoddolodd sawl Aelod o'r Pwyllgor o drafod gwaith y Pwyllgor gyda grŵp o Ddinasyddion Gweithredol o Kenya a fu'n ymweld â Chynulliad Cenedlaethol Cymru fel rhan o'r rhaglen ryngwladol 'Dinasyddion Gweithredol' gan y Cyngor Prydeinig.

**Materion trawsbynciol eraill**

28. Drwy gydol ein gwaith, roeddem yn ceisio ystyried effaith penderfyniadau Llywodraeth Cymru yng ngoleuni ei hymrwymiadau trawsbynciol, ar gydraddoldeb, tlodi plant a chynaliadwyedd er enghraifft. Byddem yn cymell y Pedwerydd Cynulliad i barhau i ofyn i'w holl Bwyllgorau gynnwys materion o'r fath yn eu trafodaethau.

## 2. Materion o fewn ein cylch gwaith

29. Yn ystod y Trydydd Cynulliad, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiadau ar 10 ymchwiliad (a chymeradwyo 1 adroddiad ar ymchwiliad gan yr Is-bwyllgor Darlledu ar gyfer ei gyhoeddi).

30. Drwy gydnabod y posibilrwydd y bydd gan y pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu gylchoedd gwaith gwahanol i'n un ni, mae'r ymchwiliadau hyn wedi eu trefnu'n llac yn yr adroddiad etifeddiaeth hwn yn ôl y gwahanol feysydd o fewn ein cylch gwaith, yn hytrach nag yn ôl eu cronoleg.

**Tai**

- Gwneud y Mwyaf o'r Sector Tai Rhent Preifat yng Nghymru (Chwefror 2011);

**Diogelwch Cymunedol**

- Cam-drin Domestig yng Nghymru (Rhagfyr 2008);
- Cyfiawnder Ieuenctid: Profiad Plant Cymru mewn Sefydliadau Diogel (Chwefror 2010);
- Effaith bosibl Mesur Seneddol Llywodraeth y DU ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol ar ddiogelwch cymunedol yng Nghymru (Chwefror 2011);

**Cynhwysiant Cymunedol (gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf a'r Cynllun Gofodol)**

- Ariannu Cyrff y Sector Gwirfoddol yng Nghymru (Mai 2008);
- Cynhwysiant Ariannol ac Effaith Addysg Ariannol (Tachwedd 2010);

**Yr Iaith Gymraeg, chwaraeon a diwylliant**

- Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru (Mehefin 2009);
- Y Diwydiant Papurau Newydd yng Nghymru (Mehefin 2009);
- Hyrwyddo Celfyddydau a Diwylliant Cymru ar Lwyfan y Byd (Gorffennaf 2009);
- Gwneud yn Fawr o Ddigwyddiadau Chwaraeon Mawr yng Nghymru (Mehefin 2010);
- Hygyrchedd Gweithgareddau Celfyddydol a Diwylliannol yng Nghymru (Chwefror 2011).

# 3. Tai

## Gwneud y Mwyaf o'r Sector Tai Rhent Preifat yng Nghymru (Chwefror 2011)

31. Gosododd y Pwyllgor ei adroddiad 'Gwneud y Mwyaf o'r Sector Tai Rhent Preifat yng Nghymru' ar 4 Chwefror 2011.

32. Roedd ein hadroddiad yn ystyried y prif faterion a ddeilliodd o'n hymchwiliad mewn pedair pennod:

- potensial y sector tai rhent preifat;
- newidiadau a allai godi safonau yn y sector tai rhent preifat;
- rhwystrau sy'n atal mynediad at y sector tai rhent preifat;
- y potensial i ailddechrau defnyddio tai gwag.

33. Yn benodol, galwodd y Pwyllgor ar Lywodraeth Cymru i gynhyrchu strategaeth benodol i wneud y mwyaf o'r sector tai rhent preifat, gan gymell bod Llywodraeth Cymru'n hyrwyddo delwedd gyhoeddus gadarnhaol o'r sector fel tenantiaeth ddewisol.

34. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd fod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau deddfwriaethol priodol fel y gellid rheoleiddio'r holl asiantaethau gosod yng Nghymru yn statudol.

35. Yn ogystal, awgrymodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ba mor effeithiol ac ymarferol fyddai cael cynllun trwyddedu neu gofrestru ar gyfer yr holl reolwyr llety rhent preifat (gan gynnwys rhai landlordiaid) yng Nghymru.

## Datblygiadau ers cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor

36. Derbyniwyd ymateb gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio i adroddiad y Pwyllgor ar 18 Mawrth 2011, gan dderbyn ein hargymhellion i gyd naill ai'n llawn, neu mewn egwyddor.

37. O ystyried mai ond ym mis Chwefror 2011 y cyhoeddwyd yr adroddiad hwn, ystyriwn y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu yn monitro i sicrhau bod argymhellion ein hadroddiad yn cael eu gweithredu'n effeithiol gan Lywodraeth newydd Cymru yn y dyfodol.

# 4. Diogelwch Cymunedol

**Cam-drin Domestig yng Nghymru (Rhagfyr 2008)**

38. Ym mis Ebrill 2008, dechreuodd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant gasglu tystiolaeth ar ei ymchwiliad i Gam-drin Domestig yng Nghymru, a chyhoeddodd ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2008.

**Themâu allweddol yn codi o'r ymchwiliad**

39. Daeth nifer o faterion i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad ac adlewyrchir y rhain yn yr adroddiad, gan gynnwys:

- Pryderon gan sefydliadau a deimlai nad oedd strategaeth cam-drin domestig Llywodraeth Cymru'n cael ei gweithredu'n llawn, ynghyd ag amrywiaeth barn am gwmpas y strategaeth;
- Gwasanaethau a chymorth i bobl yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig, yn enwedig diffyg capasiti llety lloches a chamu ymlaen, bylchau mewn gwasanaethau cwnsela i blant a phobl ifanc a phrofiadau goroeswyr sy'n chwilio am gymorth gan adrannau tai awdurdodau lleol;
- Bod angen cwrdd ag anghenion grwpiau gwahanol o bobl a'r rhwystrau sy'n wynebu grwpiau gwahanol gyda chael gafael ar wasanaethau;
- Darpariaeth amrywiol y gwaith ataliol ac agweddau diwylliannol heriol tuag at gam-drin yn y cartref drwy godi ymwybyddiaeth a herio mythau ynghylch cam-drin domestig;
- Pryderon ynghylch cyllid cynaliadwy, darpariaeth amrywiol a gwerthuso pa mor effeithiol yw rhaglenni i gamdrinwyr;
- Materion cyllid yng nghyswllt gweithwyr plant, Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, Eiriolwyr Annibynnol Trais Domestig a mynediad at gymorth cyfreithiol;
- Diffyg cydlynu gwaith aml-asiantaethol a threfniadau strategol;
- Bod angen gwerthuso, monitro ac ymchwilio i wella dealltwriaeth pobl o natur a pha mor gyffredin yw cam-drin domestig, ac i fesur pa mor effeithiol yw gwasanaethau cam-drin domestig.

**Datblygiadau ers cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor**

40. Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch gweithredu'r argymhellion (a dderbyniwyd) yn ein hadroddiad ym mis Hydref 2009, ac eto ym mis Chwefror 2011.

41. Cyhoeddwyd strategaeth 'Yr Hawl i Fod yn Ddiogel' Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2010, ynghyd â 'Trais yn Erbyn Menywod a Cham-drin Domestig – Cynllun Gweithredu 2010-13'.

42. Ystyriwn y gallai fod yn ddefnyddiol pe bai'r pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu yn monitro i weld pa mor effeithiol yw strategaeth 'Yr Hawl i Fod yn Ddiogel' Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Credwn, yn yr hinsawdd ariannol bresennol, ei bod yn neilltuol o bwysig bod 'materion cudd' fel cam-drin yn y cartref yn parhau i fod yn flaenoriaeth gwariant cyhoeddus. Credwn felly ei bod yn arbennig o briodol bod y pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu yn parhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â thrais yn y cartref.

**Rydym yn argymell bod y pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu yn parhau i ganolbwyntio'n arbennig ar ymdrechion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thrais yn y cartref.**

**Cyfiawnder Ieuenctid: Profiad Plant Cymru mewn Sefydliadau Diogel (Chwefror 2010)**

43. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad 'Cyfiawnder Ieuenctid: Profiad Plant Cymru mewn Sefydliadau Diogel' ar 25 Chwefror 2010.

**Themâu allweddol yn codi o'r ymchwiliad**

44. Ystyriwyd bod 7 thema allweddol wedi codi yn ystod ein hymchwiliad. Nodir hwy isod:

- datganoli Sefydliadau Diogel i Gymru;
- atal pobl ifanc rhag troseddu;
- ymateb i bobl ifanc yn troseddu;
- y ddarpariaeth bresennol o leoliadau mewn sefydliadau diogel yng Nghymru;
- problemau penodol mewn sefydliadau diogel;
- cymorth ychwanegol i grwpiau penodol o blant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel;
- hyfforddiant Staff;
- adsefydlu ac ôl-ofal.

45. Yn greiddiol, argymhellodd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru'n gofyn i Lywodraeth y DU ddatganoli'r cyfrifoldeb dros sefydliadau diogel i bobl ifanc i Lywodraeth Cymru.

46. Un o brif ddarganfyddiadau ein hymchwiliad oedd bod tystion yn ystyried bod agenda hawliau Llywodraeth Cymru a ddarperir i blant yng Nghymru yn llawer mwy datblygedig na'r agenda a ddarperir gan adrannau cyfatebol yn Whitehall.

47. Un arall o'n hargymhellion oedd pwyso ar Lywodraeth Cymru i herio'r argraff sydd gan y cyhoedd o droseddwyr ifanc a chwalu'r stereoteip o 'hwdis'. Roeddem yn ystyried bod plant a phobl ifanc yn aml yn cael eu cythreulio'n annheg. Dangosodd dystiolaeth a gyflwynwyd i'r pwyllgor fod troseddwyr ifanc, mewn llawer iawn o achosion, wedi dioddef cam-drin corfforol a rhywiol, wedi cael eu hudo i gam-drin cyffuriau neu wedi treulio amser yng ngofal y gwasanaethau cymdeithasol oherwydd problemau adref.

48. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd fod Llywodraeth Cymru'n adolygu'r defnydd o garcharu gan sicrhau bod hyn ond yn digwydd

mewn amgylchiadau priodol yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac yn adolygu argaeledd ac addasrwydd llety mechnïaeth i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

49. Roedd yr adroddiad hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i ymgysylltu gyda Llywodraeth y DU er mwyn galluogi datblygu lleoliadau newydd mewn sefydliadau diogel yng Nghymru, yn defnyddio uned ddiogel Hillside fel model, gan hefyd ddatblygu darpariaeth mewn lleoliad priodol yn y gogledd.

**Datblygiadau ers cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor**

50. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn 26 o’r 28 argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor yn llawn neu mewn egwyddor.

51. Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch gweithredu’r argymhellion (a dderbyniwyd) yn yr adroddiad ar 17 Mawrth 2011. Yn benodol, roedd y diweddariad yn nodi:

> “Yn y deuddeng mis ers adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar brofiad plant Cymru mewn sefydliadau diogel, mae newidiadau sylweddol wedi bod yng nghyd-destun cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus. Er enghraifft, cafwyd newid yn Llywodraeth y DU a chyhoeddiad yn sgil hynny bod y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn cael ei ddiddymu. Ond, efallai mai’r datblygiad pwysicaf yw’r graddau y mae cyllid cyhoeddus wedi dod dan bwysau yn sgil y dirywiad economaidd a chamau i leihau diffyg ariannol y DU. Yn anochel, mae hyn wedi cael effaith sydd wedi cael llawer o sylw mewn dogfennau ar gyfluniad ac argaeledd gwasanaethau cyhoeddus. Nid yw’r ystâd ddiogel i bobl ifanc wedi’i heithrio o'r effaith hon...Serch hynny, nid yw’r holl newidiadau a fu dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn rhai negyddol. Rydym wedi parhau i weld tueddiad ar i lawr cadarnhaol iawn yn nifer y plant a phobl ifanc sy’n dod i mewn i’r system cyfiawnder ieuenctid, gostyngiad o ran pa mor aml y mae pobl ifanc yn aildroseddu ac mae’r garfan o bobl ifanc sy'n cael eu dedfrydu i'r ddalfa yn mynd yn llai.”[11]

52. O ganlyniad i’r newidiadau, roedd Llywodraeth Cymru’n ystyried nad oedd yn “ymarferol ar hyn o bryd i neilltuo gwariant cyfalaf ar gyfer darpariaeth newydd yng Nghymru.”[12]

---

[11] CC(3)-5-11 Papur 1
[12] Ibid

53. Roedd y diweddariad hefyd yn nodi y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn archwilio i egwyddorion a goblygiadau ariannol yr argymhellion ynghylch datganoli cyfiawnder ieuenctid ymhellach. Bydd y Cabinet yn derbyn papur pellach ar y mater hwn ym mis Mawrth 2011.

54. O ystyried y newidiadau sylweddol sy'n parhau i ddigwydd ym maes Cyfiawnder Ieuenctid, ystyriwn y byddai'n syniad da iawn pe bai'r pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu yn parhau i graffu ar weinyddiaeth, gwariant a pholisi Llywodraeth Cymru yn y maes pwysig hwn. Yn benodol, efallai y bydd y pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu am gadarnhau beth yw safiad Llywodraeth Cymru ar ddatganoli Cyfiawnder Ieuenctid.

## Effaith bosibl Mesur Seneddol Llywodraeth y DU ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol ar ddiogelwch cymunedol yng Nghymru (Chwefror 2011)

55. Cyflwynodd y Pwyllgor ei adroddiad ar effaith bosibl Mesur Seneddol Llywodraeth y DU ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol ar ddiogelwch cymunedol yng Nghymru ar 24 Chwefror 2011.

56. Er nad yw plismona yn fater sydd wedi'i ddatganoli yng Nghymru, cyflawnodd y Pwyllgor yr ymchwiliad oherwydd bod y Mesur – a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Tachwedd 2010 – yn cynnwys cymalau sy'n darparu ar gyfer trefniadau penodol yng Nghymru.

57. O ddiddordeb arbennig i ni oedd nod y Mesur i ddisodli awdurdodau'r heddlu gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu a etholir yn uniongyrchol o fis Mai 2010 ymlaen, gyda'r bwriad o wneud yr heddlu'n fwy atebol.

58. Yn ein hadroddiad, roeddem yn galw am ohirio'r broses hon yng Nghymru hyd nes i'w llwyddiant gael ei mesur mewn rhannau eraill o'r DU.

59. Roeddem hefyd yn argymell bod Llywodraethau Cymru a'r DU yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau, pe sefydlir Comisiynwyr a Phaneli yng Nghymru, eu bod yn cael eu gweithredu ar sail consensws. Roedd ein hadroddiad yn nodi y golygai hyn y byddai gan y Comisiynydd a'r Panel rôl gyfartal gyda phenodi neu ddiswyddo'r Prif Gwnstabl, pennu'r praesept a chytuno ar flaenoriaethau drwy'r Cynllun Heddlu a Throseddu lleol.

60. Pleidleisiodd y Pwyllgor ar y ddau argymhelliad hwn, gyda 7 allan o 9 o'r Aelodau o'u plaid.

61. Roedd argymhellion eraill, a gytunwyd arnynt gan y Pwyllgor cyfan, yn cynnwys bod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod Llywodraeth y DU yn gweithio gydag Awdurdodau'r Heddlu i ddatblygu dull cyson o ymgysylltu gyda chymunedau a gweithio mewn partneriaeth.

62. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei pholisïau, gan gynnwys y strategaeth 'Yr Hawl i Fod yn Ddiogel' ar ddelio gyda thrais yn erbyn menywod, i sicrhau bod modd

integreiddio eu hamcanion gyda'r tirlun polisi sy'n codi o'r Mesur terfynol.

**Datblygiadau ers cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor**

63. Nid oedd y Pwyllgor yn disgwyl derbyn ymateb i'r adroddiad hwn gan Lywodraeth Cymru cyn i'r Trydydd Cynulliad gael ei ddiddymu.

64. Ystyriwn y gallai fod yn ddefnyddiol pe bai'r pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu yn monitro ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwn, ynghyd ag effaith ehangach Mesur Seneddol Llywodraeth y DU ar Ddiogelwch Cymunedol yng Nghymru.

# 5. Cynhwysiant Cymunedol

**Ariannu Cyrff y Sector Gwirfoddol yng Nghymru (Mai 2008)**

65. Ym mis Mai 2008 cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar ei ymchwiliad i ariannu cyrff y sector gwirfoddol yng Nghymru.

66. Yn ystod yr ymchwiliad hwn, dywedodd lawer o'r rhai a roddodd dystiolaeth fod yn well ganddynt y term Trydydd Sector na Sector Gwirfoddol, felly defnyddir y term hwnnw yn yr adroddiad etifeddiaeth hwn.

67. Mae dros 30,000 o fudiadau Trydydd Sector yng Nghymru sy'n cynnwys ystod o grwpiau gwirfoddol a chymunedol, mudiadau crefyddol, cydweithredol a mentrau cymdeithasol ynghyd â mudiadau di-elw eraill. Daw'r arian ar gyfer y sector o amryw o wahanol ffynonellau gan gynnwys Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a rhoddion gan y cyhoedd.

68. O dan Adran 74 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* rhaid i Weinidogion Cymru lunio cynllun ("cynllun y sector gwirfoddol") yn nodi sut y maent yn bwriadu hyrwyddo buddiannau mudiadau gwirfoddol perthnasol wrth arfer eu swyddogaethau.

**Themâu allweddol yn codi o'r ymchwiliad**

69. Yn ein hadroddiad gwnaethom 25 o argymhellion i Lywodraeth Cymru. Yn ystod yr ymchwiliad, cododd nifer o faterion gan gynnwys:

- dibyniaeth y Trydydd Sector ar gyllid o'r sector cyhoeddus (43 y cant o'i incwm);
- y dylai'r sector cyhoeddus drin y Trydydd Sector fel partner strategol;
- bod angen i'r sector cyhoeddus, a chyrff cyllido eraill fel y Gronfa Loteri Fawr wneud rhagor i helpu'r Trydydd Sector helpu ei hun;
- dylai'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol ddarparu rhagor o gymorth ymarferol; a
- dylid osgoi rhoi cyllid tymor byr i brosiectau oherwydd bod hyn yn atal cynllunio strategol.

**Datblygiadau ers cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor**

70. Mae Llywodraeth Cymru wedi ein diweddaru ar ei chynnydd gyda gweithredu ein hargymhellion ym mis Chwefror 2009 ac ym mis Ionawr 2011.

71. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gwrdd â'i hymrwymiad statudol i gynnal cynllun sector gwirfoddol, ac i gyhoeddi adroddiadau blynyddol yn amlinellu sut y mae'n cefnogi'r sector. Roedd yr adroddiad diweddaraf ar gyfer 2008-09.

72. Yng nghyd-destun y pwysau cynyddol ar arian cyhoeddus, bydd yn amlwg o werth i'r pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu eu bod yn parhau i archwilio - yn gyffredinol - sut mae cyrff trydydd sector yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.

**Cynhwysiant Ariannol ac Effaith Addysg Ariannol (Tachwedd 2010);**

73. Ar 3 Tachwedd 2010, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar 'Gynhwysiant Ariannol ac Effaith Addysg Ariannol', gan dynnu sylw at bryderon ynghylch argaeledd a safon addysg ariannol mewn ysgolion a chymunedau yng Nghymru.

74. Roedd yr adroddiad yn nodi er bod rhaglenni addysg ariannol ar waith, bod angen i Lywodraeth Cymru wneud rhagor i sicrhau eu bod yn gydlynus, effeithiol ac yn cael eu gwarchod rhag toriadau yn yr hinsawdd economaidd anodd sydd ohoni.

75. Tynnodd sylw hefyd at ba mor bwysig oedd darparu gwybodaeth ariannol drylwyr i blant ysgol tra'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud addysg ariannol yn rhan orfodol o feysydd llafur ABCh.

76. Roedd yr adroddiad yn nodi ein bod wedi clywed tystiolaeth gadarnhaol am ysgolion yn gweithio gydag undebau credyd i ddarparu addysg ariannol, gan newid arferion ariannol disgyblion drwy hyrwyddo gwario'n gyfrifol. I annog rhagor o brosiectau fel hwn, roedd yr adroddiad yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i sefydlu uned wybodaeth ganolog fel bod asiantaethau a chymunedau'n gallu dod o hyd i bartneriaid yn ddiymdroi a datblygu cysylltiadau a phrosiectau cydweithredol.

77. Roedd hefyd yn argymell rhagor o ymgysylltu yn y gymuned ehangach, gan gynnwys codi rhagor o ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd a gwarchod a datblygu Uned Addysg Ariannol Cymru – rhan o strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru.

**Datblygiadau ers cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor**

78. Roeddem yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn, naill ai'n llawn neu mewn egwyddor, 11 o'r 13 o argymhellion (gydag un wedi'i wrthod ac un arall yn parhau i gael ei ystyried adeg cyhoeddi'r adroddiad etifeddiaeth hwn).

79. Roeddem yn siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bod wedi gwrthod ein hargymhelliad ei bod yn ystyried cynnal ymgyrch ddygn yn y cyfryngau i helpu pobl i ddeall manteision cynhwysiant ac addysg ariannol. Rhesymeg Llywodraeth Cymru dros ei phenderfyniad oedd nad oedd yn credu y byddai hyn yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o arian cyhoeddus.

80. Fodd bynnag, mewn trafodaeth fwy diweddar ar ein hadroddiad yn y Cyfarfod Llawn, esboniodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol fod Llywodraeth Cymru yn:

> “endorse the need for raising awareness and understanding of financial issues. I therefore agree that the Assembly Government should be involved in discussions with key stakeholders, such as the north and south Wales financial capability fora, CFEB, the financial inclusion champions and the Welsh financial education unit on how those facilities can be better used to increase financial education across the whole of Wales.”[13]

81. Ystyriwn y byddai’n ddefnyddiol pe bai’r pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu yn gweithredu ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi'n strategol a chymeradwyo ymgyrchoedd addysg ariannol a ddatblygir gan randdeiliaid allweddol.

**Rydym yn argymell bod y pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu yn monitro cefnogaeth strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgyrchoedd addysg ariannol a ddatblygir gan bartneriaid, ac yn cymeradwyo’r ymgyrchoedd hynny.**

82. Yn fwy cyffredinol, ystyriwn y byddai’n ddefnyddiol pe bai’r pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu yn monitro gweithrediad ehangach yr argymhellion yn yr adroddiad hwn. Ystyriwn fod argymhellion yr adroddiad hwn yn arbennig o berthnasol yn yr hinsawdd economaidd bresennol, a hithau'n bwysicach nag erioed bod pobl yn gallu rheoli eu harian yn well.

[13] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn, 19 Ionawr 2011, Tudalen 29.

# 6. Yr Iaith Gymraeg, chwaraeon a diwylliant

### Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru (Mehefin 2009)

83. Wedi i'r adroddiad gael ei gyfeirio atom gan yr Is-bwyllgor Darlledu, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru ar 9 Mehefin 2009.

### Themâu allweddol yn codi o'r ymchwiliad

84. Yn ystod yr ymchwiliad, cododd nifer o faterion gan gynnwys:

- bod angen sicrhau lluosogrwydd, a bod angen i'r Pwyllgor ystyried opsiynau i sicrhau lluosogrwydd;
- portread Cymru ar y rhwydwaith;
- y drwydded ddarlledu yng Nghymru;
- radio DAB yng Nghymru;
- datblygu'r cyfryngau yng Nghymru.

85. Yn benodol, roeddem yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n pwyso ar Lywodraeth y DU i sicrhau lluosogrwydd wrth ddarlledu yn yr iaith Saesneg yng Nghymru, yn enwedig ar ITV. Roedd hefyd yn galw am sefydlu Comisiwn Cyfryngau annibynnol ar gyfer Cymru i ddiogelu lluosogrwydd mewn darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Cytunodd Llywodraeth Cymru gyda'n barn am luosogrwydd, ond dywedodd y byddai sefydlu unrhyw gomisiwn yn dibynnu ar dderbyn cyllid gan Lywodraeth y DU.

86. Roeddem hefyd yn argymell bod y Ddeddf Darlledu'n cael ei hadolygu er mwyn creu un drwydded fasnachol ar gyfer Cymru. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn yn rhannol, gan nodi ei bod yn pwyso ar Llywodraeth y DU i adolygu'r trefniadau trwyddedu presennol ar gyfer ITV yng Nghymru.

87. Roeddem hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda darlledwyr, cynhyrchwyr annibynnol a'r BBC i ddatblygu uned greadigol ar gyfer y cyfryngau yng Nghymru. Derbyniodd Lywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, gan fynegi bod trafodaethau wedi dechrau gyda'r BBC i ddatblygu canolfan gynhyrchu fawr yng Nghaerdydd.

**Datblygiadau ers cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor**

88. Yn 2009, cyhoeddodd Llywodraeth (Lafur) y DU gynlluniau i sefydlu Consortiwm Newyddion peilot wedi'i ariannu'n annibynnol ar gyfer sianel 3 yng Nghymru – datblygiad a groesawyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, cyhoeddodd Llywodraeth (glymbleidiol) newydd y DU yn 2010 na fyddai'r peilot hwn yn mynd yn ei flaen.

89. Cawsom y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar ynghylch gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn ym mis Gorffennaf 2010.

90. Yn ei ddiweddariad yn 2010, dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru'n dal i bryderu am y trefniadau trwyddedu presennol ar gyfer ITV, ac y byddai'n trafod y mater gyda Llywodraeth y DU, Ofcom ac ITV yng ngoleuni'r adolygiad rheoleiddio a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon.

91. Yn ei ddiweddariad yn 2010, dywedodd y Gweinidog hefyd fod prosiect Caerdydd Prifddinas y Cyfryngau yn dod yn ei flaen, gyda Phentref Drama'r BBC ym Masn y Rhath i agor ym mis Awst 2011. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Chyngor Caerdydd, y BBC a rhanddeiliaid eraill i sefydlu partneriaeth a fyddai'n hwyluso datblygiadau pellach.

92. Ystyriwn y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu'n parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan Lywodraeth Cymru gyda gweithredu ein hargymhellion. Gyda Phentref Drama'r BBC yn cael ei ddatblygu ynghyd â phrosiect 'Caerdydd, Prifddinas y Cyfryngau', y drafodaeth barhaus ynghylch dyfodol S4C a thrwyddedau masnachol, a galwadau i ddatganoli'r swyddogaeth darlledu, rydym yn rhagweld y bydd materion yng nghyswllt darlledu a'r cyfryngau yn dod yn fwyfwy pwysig yng Nghymru, yn economaidd, yn ddiwylliannol ac o ran cynhwysiant cymunedol.

**Rydym yn argymell bod y pwyllgor(au) a fydd yn ein holynu yn ystyried cynnal ymchwiliad pellach i sut mae darlledu (ym mhob un o ffurfiau'r cyfryngau) yn gweithio yng Nghymru.**

**Y Diwydiant Papurau Newydd yng Nghymru (Mehefin 2009)**

93. Cyhoeddodd Is-bwyllgor Darlledu (y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant) ei adroddiad ar y Diwydiant Papurau Newydd yng Nghymru ar 17 Mehefin 2009. Sbardunwyd yr ymchwiliad i ddechrau gan bryderon ynghylch dyfodol papurau newydd lleol yng Nghymru.

94. Gwnaeth yr Is-bwyllgor Darlledu bedwar o argymhellion i Lywodraeth Cymru, gan argymell y dylai Llywodraeth Cymru:

- gyflwyno achos i Lywodraeth y DU yn ceisio sicrwydd bod rheolau traws-gyfryngau'n cael eu llacio i ganiatáu archwilio partneriaethau newydd;
- cyflwyno achos i Lywodraeth y DU yn ceisio sicrwydd y bydd mesurau i amddiffyn lluosogrwydd cyfryngau lleol yn cyd-fynd ag unrhyw symudiad i lacio rheoliadau sy'n ymwneud â pherchnogaeth traws-gyfryngau;
- sefydlu deialog â chwmnïau papurau newydd ac undebau i archwilio modd o gefnogi newyddiaduraeth Saesneg yng Nghymru;
- wrth lunio'i dull strategol o drin hysbysebu, ystyried cylchrediad a threiddiadau'r papurau newydd dan sylw, a sicrhau nad yw teitlau perthnasol yn cael eu hesgeuluso. Wrth wneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru gyfathrebu ei strategaeth hysbysebu'n eglur i gwmnïau papurau newydd Cymru.

**Datblygiadau ers cyhoeddi adroddiad yr is-bwyllgor**

95. Cafodd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch gweithredu'r argymhellion yn adroddiad yr is-bwyllgor ym mis Gorffennaf 2010. Yn y diweddariad, roedd y Gweinidog yn ailadrodd ei gefnogaeth i weithio mewn partneriaeth, gan nodi bod Ofcom wedi gwneud argymhellion ynghylch llacio'r rheolau ar draws-gyfryngau. Fodd bynnag, nododd hefyd fod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon yn adolygu'r rhain o ganlyniad i'r penderfyniad i beidio â symud ymlaen gyda'r cynlluniau i sefydlu Consortia Newyddion peilot wedi eu hariannu'n annibynnol. Roedd y Gweinidog hefyd yn amlinellu'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda rhanddeiliaid i ddatblygu sgiliau yn y diwydiant papurau newydd yng Nghymru, gan gynnwys gwaith Cronfa Ddysgu Undeb Cymru.

## Hyrwyddo Celfyddydau a Diwylliant Cymru ar Lwyfan y Byd (Gorffennaf 2009)

96. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar Hyrwyddo Celfyddydau a Diwylliant Cymru ar Lwyfan y Byd ar 14 Gorffennaf 2009.

### Themâu allweddol yn codi o'r ymchwiliad

97. Ystyriwyd bod chwe thema allweddol wedi codi yn ystod ein hymchwiliad. Nodir hwy isod:

- Bod angen dull strategol;
- Bod angen cyllid a chymorth;
- Bod angen gweithio mewn partneriaeth;
- Rôl awdurdodau lleol a gweithio ar draws Cymru gyfan;
- Rôl cyhoeddi;
- Rhwystrau a chefnogaeth i ymarferwyr celfyddydau.

98. Yn benodol, roeddem yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adfywio ei fframwaith strategol i hyrwyddo Cymru ar y llwyfan rhyngwladol, a'i bod yn ymrwymo'n bendant i gyflwyno strategaeth ddiwylliant newydd. Derbyniodd y Gweinidog yr argymhellion hyn, er y dywedodd na fyddai angen adnewyddu'r strategaeth *Dyfodol Creadigol* yn llwyr i wneud hyn.

99. Roeddem hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu www.wales.com fel y brif wefan a ddefnyddir gan bobl wrth gyfeirio at Gymru. Derbyniodd Lywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

100. Roeddem hefyd yn argymell bod Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru yn ystyried sut i farchnata eu gwasanaethau yn fwy rhagweithiol. Roeddem hefyd yn argymell bod Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn darparu a marchnata gwasanaeth cymorth i helpu artistiaid o Gymru i ddelio gyda'r trafferthion ymarferol o fynd â'u gwaith dramor.

### Datblygiadau ers cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor

101. Cawsom y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar ynghylch gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn ym mis Gorffennaf 2010.

102. Yn ei ddiweddariad, dywedodd y Gweinidog dros Dreftadaeth fod Prif Weinidog Cymru wedi penderfynu sefydlu Bwrdd Polisi i

oruchwylio'r gwaith o hyrwyddo buddiannau Cymru dramor ar lefel strategol. Dywedodd y Gweinidog hefyd fod yr hinsawdd economaidd bresennol yn golygu na fyddai'n briodol datblygu strategaeth fanwl newydd ar gyfer diwylliant, ond y byddai Uwchgynhadledd ar Ddiwylliant yn cael ei chynnal ar 7 Gorffennaf 2010 i roi cyfle i'r prif chwaraewyr o'r sector diwylliant drafod y sialensau sydd wedi codi yn sgîl y dirwasgiad.

103. Cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at y gwaith manwl sydd wedi'i wneud gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru i dreialu calendr rhyngwladol ar-lein o weithgareddau diwylliannol ar gyfer Cymru, ochr yn ochr â'r gwaith ar wefan newydd Cyngor Celfyddydau Cymru.

104. O ran y gwasanaethau cymorth i artistiaid, dywedodd y Gweinidog fod y gwaith hwn eisoes wedi'i gyflawni'n rhannol drwy gyfranogiad Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn y cynllun PRACTICS, sy'n rhaglen wedi'i hariannu gan yr UE i ddarparu cymorth gweinyddol i helpu artistiaid a gweithwyr diwylliannol i oresgyn rhwystrau i ddilyn gyrfa ryngwladol.

**Gwneud yn Fawr o Ddigwyddiadau Chwaraeon Mawr yng Nghymru (Mehefin 2010).**

105. Cyhoeddodd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ei adroddiad ar 'Gwneud yn Fawr o Ddigwyddiadau Chwaraeon Mawr yng Nghymru' ar 4 Mehefin 2010.

106. Roedd yr adroddiad yn galw am helpu digwyddiadau chwaraeon mawr yng Nghymru i adael etifeddiaeth barhaol, gan gasglu bod angen rhoi rhagor o gyngor a chymorth strategol i drefnwyr digwyddiadau ac awdurdodau, i'w helpu i wneud y mwyaf o enillion economaidd a phoblogrwydd digwyddiadau chwaraeon mawr drwy adael etifeddiaeth barhaol i gymunedau.

107. Roedd yr adroddiad hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi'n glir y byddai angen i ddigwyddiadau chwaraeon mawr sy'n gofyn am gymorth ariannol, o arian cyhoeddus, gynnwys strategaeth ôl-ddigwyddiad.

108. Roedd hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n trefnu seminar flynyddol i awdurdodau lleol, y cyfryngau, elusennau, cwmnïau yn y sector preifat, cyrff chwaraeon a darparwyr trafnidiaeth, fel y gellir cyfnewid arferion da ac i hwyluso rhagor o weithio mewn partneriaeth wrth ddarparu digwyddiadau.

**Datblygiadau ers cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor**

109. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn 12 o'r 14 argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor yn llawn neu mewn egwyddor.

110. Yn benodol, roeddem yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i dderbyn ein hargymhelliad y dylai'r Uned Digwyddiadau Mawr gynnig ffynhonnell ganolog o arweiniad a chyngor ymarferol, ar sut i reoli digwyddiadau fel hyn, i'r trefnwyr.

111. Roeddem hefyd yn falch bod y Gweinidog wedi derbyn ein galwad i sefydlu calendr cenedlaethol o ddigwyddiadau mawr, er mwyn gallu gwasgaru digwyddiadau'n fwy strategol ar draws y calendr.

112. Ystyriwn y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r pwyllgor(au) sy'n ein holynu yn monitro gweithrediad yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn y dyfodol, o ystyried ei fod wedi'i gyhoeddi'n gymharol ddiweddar.

## Hygyrchedd Gweithgareddau Celfyddydol a Diwylliannol yng Nghymru (Chwefror 2011)

113. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar 'Hygyrchedd Gweithgareddau Celfyddydol a Diwylliannol yng Nghymru' ar 3 Chwefror 2011.

114. Roedd yr adroddiad yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi llai o ffocws ar ddatblygu lleoliadau pwrpasol i lwyfannu profiadau celfyddydol a diwylliannol, ac i fuddsoddi rhagor mewn prosiectau cymunedol sy'n cyrraedd cynulleidfa ehangach, yn enwedig rhai gydag anableddau neu o grwpiau lleiafrifol.

115. Roedd yr adroddiad hefyd yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i dderbyn ei bod yn strategol atebol dros y penderfyniadau ariannu a wneir gan gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru, fel Cyngor Celfyddydau Cymru. Roeddem hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y rhesymeg dros benderfyniadau o'r fath mor glir a thryloyw â phosibl.

116. Awgrymodd yr adroddiad hefyd y gallai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth fel bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i gefnogi profiadau celfyddydol a diwylliannol yn eu hardaloedd lleol. Roedd y Pwyllgor yn ystyried ei bod yn briodol gofyn am ragor o gysondeb rhwng awdurdodau lleol yn eu cefnogaeth i'r celfyddydau, heb glymu eu dwylo'n ormodol.

### Datblygiadau ers cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor

117. Disgwylir i Lywodraeth Cymru ymateb i adroddiad y pwyllgor ym mis Mawrth 2011.

118. Ystyriwn y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r pwyllgor(au) sy'n ein holynu yn monitro gweithrediad yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn y dyfodol, o ystyried ei fod wedi'i gyhoeddi'n gymharol ddiweddar.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

# Adroddiad etifeddiaeth

Mawrth 2011

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8618
e-bost: Equality.comm@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

# Adroddiad etifeddiaeth

Mawrth 2011

**Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal**
Penodir y Pwyllgor Cyfle Cyfartal gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried y dyletswyddau perthnasol a roddir gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i'r Cynulliad, Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru neu'r Comisiwn, ac i gyflwyno adroddiadau ar hynny.

**Pwerau**
Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2007 fel un o bwyllgorau craffu'r Cynulliad. Mae ei bwerau wedi'u nodi yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol, ac yn Rheol Sefydlog 17 yn benodol. Mae'r rhain ar gael i'w gweld yn **www.cynulliadcymru.org**.

**Aelodau Cyfredol y Pwyllgor**



**Ann Jones (Cadeirydd)**
Dyffryn Clwyd
Llafur



**Mohammad Asghar**
Dwyrain De Cymru
Y Ceidwadwyr Cymreig



**Veronica German**
Dwyrain De Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Janet Ryder**
Gogledd Cymru
Plaid Cymru



**Joyce Watson**
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Llafur

**Pwyllgor Cyfle Cyfartal 2007-2011**
**Adroddiad etifeddiaeth i'r Pedwerydd Cynulliad**

## Cyflwyniad

Sefydlwyd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar 26 Mehefin 2007. Ei gylch gwaith oedd ystyried ac adrodd ar y dyletswyddau perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a roddwyd i'r Cynulliad, y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru neu'r Comisiwn.

Mae'r Pwyllgor wedi cyflawni rôl bwysig o ddwyn i gyfrif Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chomisiwn y Cynulliad, a thrwy ei waith ymchwilio, mae wedi darparu cyfleoedd i grwpiau rhanddeiliaid ac aelodau'r cyhoedd, na fyddai'n gallu lleisio eu barn fel arall, i ymgysylltu yn y broses ddemocrataidd. Credwn mai dim ond Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi'i sefydlu'n arbennig allai gynnal y rôl bwysig hon o graffu ar y ddyletswydd a roddir i gyrff cyhoeddus hyrwyddo a sicrhau cydraddoldeb, a byddem yn argymell yn gryf y dylid sefydlu pwyllgor o'r fath yn y Pedwerydd Cynulliad.

## Gwaith ymchwilio

### Hygyrchedd Gorsafoedd Pleidleisio yng Nghymru

Hwn oedd ymchwiliad cyntaf y Pwyllgor a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2007. Nod yr ymchwiliad oedd asesu hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio i bobl anabl yng Nghymru. Fel rhan o'i ganfyddiadau, canfuwyd bod nifer o bobl yn credu bod hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio i bobl anabl yn gwella er bod llawer o waith i'w wneud eto. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru i wella'r sefyllfa.

Mae'r Pwyllgor wedi parhau i fonitro'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru i weithredu argymhellion yr ymchwiliad hwn. Ym mis Mawrth 2010, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn pellach o gyflwyno tystiolaeth gyda chynrychiolwyr o Scope Cymru, y Comisiwn Etholiadol a Chymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol i weld a oeddent yn credu bod y sefyllfa wedi gwella, ac yna cafwyd sesiwn gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ym mis Medi 2010. Er ein bod yn cydnabod bod gwelliannau wedi'u gwneud, yr oeddem yn bryderus o hyd bod angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod pob gorsaf bleidleisio yn hygyrch. **Byddem yn argymell i'r Pwyllgor nesaf eu bod yn codi'r mater hwn gyda'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol i asesu pa welliannau a wnaed ar gyfer etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2011, a pha wersi sydd i'w dysgu ar gyfer etholiadau yn y dyfodol.**

**Materion sy'n effeithio ar Weithwyr Mudol yng Nghymru**
Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i'r materion sy'n effeithio ar weithwyr mudol yng Nghymru a gwnaed nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru. Yna cynhaliwyd sesiwn gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth leol i weld pa ddatblygiadau a wnaed i weithredu'r argymhellion. **Byddem yn argymell bod y Pwyllgor nesaf yn rhoi ystyriaeth bellach i'r mater hwn yn y Pedwerydd Cynulliad, yn arbennig cyfleoedd cyflogaeth i weithwyr mudol cymwys.**

**Byddem hefyd yn argymell bod y Pwyllgor nesaf yn derbyn gwybodaeth gan Awdurdod Trwyddedu'r Gangfeistri ar ei gylch gwaith yn dilyn pasio'r Mesur Trwyddedu Gangfeistri (Estyniad i'r Diwydiant Adeiladu).**

**Gwasanaethau Addasu a Chynnal a Chadw Cartrefi ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru**
Cynhaliodd y Pwyllgor yr ymchwiliad hwn i archwilio'r materion sy'n wynebu pobl hŷn wrth iddynt wneud cais am wasanaethau addasu a chynnal a chadw cartrefi. Bu i ni ganfod bod y system o wneud cais am grantiau addasu cartrefi a chael y grantiau hyn i bobl hŷn ledled Cymru yn gymhleth ac yn aml yn anghyson. Bu i ni ganfod bod pobl hŷn yn aros am gyfnodau annerbyniol o hir am addasiadau, ac y gallai'r amseroedd aros hyn fod yn hwy i bobl sy'n byw mewn gwahanol rannau o Gymru neu mewn gwahanol fathau o dai.

Un o'n hargymhellion oedd bod Llywodraeth Cymru'n cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion yn yr Adolygiad o Grantiau Cyfleusterau Anabledd 2005, a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. **Byddem yn argymell i'r Pwyllgor nesaf eu bod yn parhau i dderbyn adroddiad blynyddol ar gynnydd yr argymhellion hyn.**

**Y Gwahaniaethu sy'n cael ei Brofi gan Bobl sy'n Byw gyda HIV gan Weithwyr Proffesiynol a Darparwyr Gofal Iechyd.**
Ar ôl i Ymddiriedolaeth AIDS Cymru godi pryderon ynglŷyn â hyn, cynhaliwyd ymchwiliad gan y Pwyllgor i asesu lefel y gwahaniaethu sy'n cael ei brofi gan bobl sy'n byw gyda HIV gan weithwyr proffesiynol a darparwyr gofal iechyd. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod y sefyllfa wedi gwella ers i'r diwygiad i Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd yn 2005 newid y diffiniad o anabledd i sicrhau bod pobl sy'n byw gyda HIV yn derbyn yr un hawliau yn erbyn triniaeth annheg, fodd bynnag, roedd angen codi mwy o ymwybyddiaeth i wella'r sefyllfa

ymhellach. Cyflwynodd y Pwyllgor nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru i wella'r sefyllfa.

Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn datgan, yn ei hymateb ym mis Mehefin 2010, y gallai dderbyn y rhan fwyaf o'n hargymhellion. Yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn, trafododd y Gweinidog y posibiliadau o gynnal ymgyrch ymwybyddiaeth genedlaethol gyda'i chymheiriaid yng ngweinyddiaethau eraill y DU. Ond, oherwydd cyfyngiadau amser, ni fu'n bosibl i'r Pwyllgor hwn olrhain camau gweithredu Llywodraeth Cymru i weithredu ein hargymhellion**. Byddem felly'n annog y Pwyllgor nesaf i gynnal sesiwn ddilynol i sicrhau nad yw'r mater pwysig hwn yn mynd yn angof.**

**Hygyrchedd Gorsafoedd Rheilffordd yng Nghymru**
Mae hygyrchedd gorsafoedd rheilffordd yn fater sy'n gallu effeithio ar unrhyw un sy'n defnyddio gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru nid dim ond y rhai ag anabledd ond rhieni â phlant ifanc neu bobl sy'n ymdrechu gyda bagiau trwm. Cawsom hanesion nifer o bobl a oedd wedi profi problemau gyda phlatfformau â mynediad dros bont droed yn unig, lifftiau annibynadwy, bylchau mawr rhwng y trên a'r platfform a gwybodaeth annibynadwy. Er ein bod yn cydnabod y cyfyngiadau oherwydd y seilwaith sy'n deillio'n bennaf o'r cyfnod Fictoraidd, a'n bod yn croesawu'r gwelliannau sydd wedi'u gwneud yn barod, roeddem yn credu y gellir gwneud mwy, ac y dylid gwneud mwy, i wella hygyrchedd gorsafoedd rheilffordd yng Nghymru.

Roedd y Pwyllgor yn falch bod y Dirprwy Brif Weinidog wedi gallu derbyn yr holl argymhellion a wnaed gennym fel rhan o'r ymchwiliad hwn, naill ai'n llawn neu mewn egwyddor. Roeddem yn arbennig o falch ei fod wedi cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ymgorffori materion hygyrchedd gorsafoedd i'r manylebau ar gyfer rownd nesaf masnachfraint Cymru a'r Gororau. **Byddem yn argymell i'r Pwyllgor nesaf eu bod yn cynnal sesiwn dilynol gyda'r Gweinidog dros Drafnidiaeth a rhanddeiliaid eraill i asesu sut y gweithredwyd ein hargymhellion gan Lywodraeth y Cynulliad ac effaith hyn ar wella hygyrchedd.**

**Effaith Polisi Llywodraeth Cymru ar Hygyrchedd y Gwasanaethau Trafnidiaeth i Bobl Anabl yng Nghymru**
Yn dilyn ymlaen o'n hymchwiliad i Hygyrchedd Gorsafoedd Rheilffordd, penderfynodd y Pwyllgor gynnal ymchwiliad byr a fyddai'n canolbwyntio ar agweddau eraill ar drafnidiaeth gyhoeddus, yn cynnwys hygyrchedd gwasanaethau bysiau a

thacsis a'r cyswllt rhwng yr holl elfennau hyn. Bu i ni ymchwilio hefyd i'r materion sy'n ymwneud â chynlluniau teithio rhatach a'u heffaith ar allu pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Bu i ni nodi bod gwelliannau wedi'u gwneud, ond roedd hanesion rhai pobl o'u profiadau yn dangos bod angen gwneud gwelliannau pellach. Rydym yn gobeithio y bydd rhai o'r argymhellion ymarferol a wnaethom yn yr adroddiad hwn yn arwain at brofiadau gwell i bawb yng Nghymru.

O ystyried amseriad yr ymchwiliad hwn mor agos at ddiwedd tymor y Cynulliad, ni fu'n bosibl trefnu dadl mewn Cyfarfod Llawn ar yr adroddiad hwn. **Rydym yn aros am ymateb gan y Dirprwy Brif Weinidog i'n hargymhellion ac rydym yn argymell bod y Pwyllgor nesaf yn codi'r mater hwn gyda'r Gweinidog dros Drafnidiaeth er mwyn sicrhau bod ein hargymhellion yn cael eu gweithredu.**

**Meysydd gwaith eraill**

**Cyflog Cyfartal**
Mae'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi bod yn bryderus iawn ynglŷn â'r gwaith o weithredu Cyflogau Cyfartal mewn llywodraeth leol ac mae'n monitro'r sefyllfa hon yn gyson. Mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo nifer o gyfarfodydd i drafod y mater hwn ac mae wedi clywed barn undebau a chynrychiolwyr cyflogwyr. Rydym hefyd wedi cynnal sesiwn gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ac rydym wedi mynegi ein pryderon ynglŷn â'r amser mae'n ei gymryd i unioni'r bwlch rhwng cyflogau dynion a merched. **Rydym yn argymell y dylai'r Pwyllgor nesaf yn y Pedwerydd Cynulliad barhau i fonitro'r broses o gyflwyno'r newidiadau ac effeithiau'r Ymgyrch Cyflog Cyfartal.**

**Cyllidebu Cyfartal**
Fel rhan o'i waith o graffu ar gyllideb ddrafft 2011-012, bu i'r Pwyllgor drafod gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol y dulliau a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i asesu effaith ei pholisïau a'i dyraniadau'r gyllideb ar wahanol sectorau o'r gymdeithas. Croesawodd y Pwyllgor y sicrwydd a roddwyd gan y Gweinidog bod y penderfyniadau cyllidebol wedi bod yn seiliedig ar asesiad o effaith ar gydraddoldeb, fodd bynnag, rydym yn argymell i'r Pwyllgor Cyllid y dylid cyhoeddi'r canlyniadau hyn. **Byddem yn annog y Pwyllgor nesaf i barhau i graffu ar ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n asesu effaith ei pholisïau a'i dyraniadau'r gyllideb ar gydraddoldeb ac i sicrhau bod y canlyniadau asesu yn cael eu cyhoeddi.**

**Craffu ar Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol**
Drwy gydol y Pedwerydd Cynulliad, mae'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi craffu ar adroddiadau cydraddoldeb blynyddol Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi bod yn agwedd bwysig iawn ar ein gwaith craffu i sicrhau bod y ddau sefydliad yn sicrhau bod cydraddoldeb wrth wraidd eu gwaith. **Byddem yn annog y Pwyllgor nesaf i barhau i graffu ar adroddiadau cydraddoldeb blynyddol yn y ffordd hon.**

**Darparu Gwasanaethau ar gyfer Pobl Ifanc Anabl**
Derbyniodd y Pwyllgor wybodaeth gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes ar y cynnydd a wnaed ers cyhoeddi'r adroddiad ar Ddarparu Gwasanaethau i Bobl Ifanc Anabl gan y Pwyllgor blaenorol yn 2007. Bu i'r Pwyllgor gydnabod bod swm sylweddol o amser wedi mynd heibio ers cyhoeddi'r adroddiad hwn, ac y **byddem yn annog y Pwyllgor nesaf i gynnal ymchwiliad newydd gan gasglu tystiolaeth gan grŵp newydd o bobl ifanc anabl.**

**Cyfleoedd i bobl anabl gael gwaith**
Ni chawsom gyfle yn ystod y tymor Cynulliad hwn i gynnal ymchwiliad i'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl anabl gael gwaith. Fodd bynnag, hoffem amlygu'r mater pwysig hwn i'r Pwyllgor newydd a gofyn iddo ystyried gwneud gwaith yn y maes hwn yn y Pedwerydd Cynulliad.

**Gweithio gyda Deddfwrfeydd eraill y DU**
Mae gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal berthnasau gwaith da gyda'i gyfoedion yn Senedd yr Alban ac yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon. Mae wedi cwrdd â'r ddau Bwyllgor yn flynyddol i rannu profiadau ac i ddysgu o waith ei gilydd. **Byddem yn argymell bod y Pwyllgor nesaf yn adeiladu ar y berthynas dda hon ac yn parhau i gynnal y cyfarfodydd defnyddiol hyn gyda'i gyfoedion i drafod materion cydraddoldeb.**

Pwyllgor Cyfle Cyfartal
Mawrth 2011

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

# Adroddiad etifeddiaeth

Mawrth 2011

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8617
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: health.wellbeing.localgovt.comm@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

## Adroddiad etifeddiaeth

Mawrth 2011

## Aelodau'r Pwyllgor

| *Aelod o'r Pwyllgor* | *Plaid* | *Etholaeth neu Ranbarth* |
|---|---|---|
| Jonathan Morgan (Cadeirydd) | Plaid Geidwadol Cymru | Gogledd Caerdydd |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Veronica German | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Dwyrain De Cymru |
| Irene James | Llafur | Islwyn |
| Ann Jones | Llafur | Dyffryn Clwyd |
| Helen Mary Jones | Plaid Cymru | Llanelli |
| Dai Lloyd | Plaid Cymru | Gorllewin De Cymru |
| Val Lloyd | Llafur | Dwyrain Abertawe |
| Nick Ramsay | Plaid Geidwadol Cymru | Mynwy |

## Cyn Aelodau o'r Pwyllgor

| *Aelod o'r Pwyllgor* | *Plaid* | *Etholaeth neu Ranbarth* |
|---|---|---|
| Peter Black | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Gorllewin De Cymru |
| Alun Cairns | Plaid Geidwadol Cymru | Gorllewin De Cymru |
| Andrew R.T. Davies | Plaid Geidwadol Cymru | Canol De Cymru |
| Darren Millar | Plaid Geidwadol Cymru | Gorllewin Clwyd |
| Jenny Randerson | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Canol Caerdydd |

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad .......... 5**

Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol .......... 5

Gwaith a Chyflawniadau .......... 5

**2. Ymchwiliadau'r Pwyllgor yn y Trydydd Cynulliad .......... 7**

Cyflwyniad .......... 7

Cynllunio Gweithlu yn y Gwasanaeth Iechyd ac ym maes Gofal Cymdeithasol yng Nghymru .......... 7

Gwaith dilynol mis Mawrth 2011 .......... 7

Cynigion Ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad ar Strwythur y Gwasanaeth Iechyd Gwladol .......... 8

Caniatâd Tybiedig ar gyfer Rhoi Organau .......... 8

Byrddau Gwasanaethau Lleol .......... 9

Trefniadau Trosolwg a Chraffu Llywodraeth Leol .......... 9

Gwaith Dilynol mis Chwefror 2011 .......... 9

Trefniadau Cyflog Cyfartal ym myd Llywodraeth Leol .......... 10

Gwaith Dilynol mis Chwefror-Mawrth 2011 .......... 10

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol .......... 11

CAFCASS Cymru .......... 11

Gwaith dilynol mis Mawrth 2011 .......... 12

Defnyddio Gwelyau Haul a'u Rheoleiddio yng Nghymru .......... 13

Gwasanaethau Strôc yng Nghymru .......... 13

Gwasanaethau Cadeiriau Olwyn yng Nghymru .......... 13

Gofal Newyddenedigol yng Nghymru .......... 13

Byrddau Lleol Diogelu Plant yng Nghymru .......... 14

Triniaeth ar gyfer Anhwylder Straen wedi Trawma i Gyn-filwyr y Lluoedd Arfog .......... 14

Gwasanaethau Orthodontig yng Nghymru .......... 14

Adolygiadau GIG .......... 15

Gwaith Ychwanegol. Achosion o E.coli ac Argymhellion Pennington15
**3. Gwaith i'r Dyfodol ........ 17**
Awgrymiadau gan Randdeiliaid a'r Cyhoedd ........ 17
**Atodiad A – Ymatebion i'r Ymgynghoriad ........ 18**

# 1. Cyflwyniad

1. Diben yr adroddiad hwn yw rhoi man cychwyn defnyddiol ar gyfer y pwyllgor a fydd yn olynu’r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol – i ddangos yr hyn rydym wedi'i wneud yn ystod y Trydydd Cynulliad, sut rydym wedi gwneud hynny a'r gwersi rydym wedi'u dysgu.

**Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol**

2. Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn un o bedwar pwyllgor craffu'r Cynulliad a sefydlwyd o dan Reol Sefydlog Rhif 12. Mae ei gylch gwaith yn cynnwys meysydd iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, llywodraeth leol a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

**Gwaith a Chyflawniadau**

3. Nod y Pwyllgor dros bedair blynedd y Trydydd Cynulliad fu craffu ar bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru a monitro eu gweithrediad i sicrhau bod pobl Cymru yn gallu cael gafael ar iechyd a gofal cymdeithasol lle mae eu hangen, a monitro a chraffu ar waith llywodraeth leol.

4. Cyfarfu'r Pwyllgor 89 gwaith yn ystod y Trydydd Cynulliad. Cynhaliodd 16 ymchwiliad, ac roedd 14 o'r rheini wedi arwain at gyhoeddi adroddiadau Pwyllgor.

5. Mae modd rhannu gwaith y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol yn y Trydydd Cynulliad yn dri phrif gategori.

- craffu ar y gyllideb
- craffu ar waith Gweinidogion yn gyffredinol
- ymchwiliadau pwyllgor

6. Fel y nodir yn Rheol Sefydlog Rhif 12, un o brif swyddogaethau’r pwyllgorau craffu yw archwilio, o fewn eu cylch gwaith, gwariant Llywodraeth Cymru. Felly, bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi craffu ar y gyllideb ddrafft ar gyfer y flwyddyn ganlynol, drwy wahodd y Gweinidogion sydd â chyfrifoldebau dros feysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a llywodraeth leol i gyflwyno tystiolaeth ar y dyraniadau i'w prif grwpiau gwariant a sut byddant yn cyflawni eu hymrwymiadau gyda'r cyllid a ddyrennir. Mae'r Pwyllgor wedi cyflwyno

ei ganfyddiadau o'r sesiynau hyn i'r Pwyllgor Cyllid, er mwyn eu cynnwys yn ei adroddiad terfynol i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am gyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru.

7. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cynnal sesiynau cyffredinol unwaith y tymor gyda'r Gweinidogion sy'n gyfrifol am faterion iechyd a llywodraeth leol. At ei gilydd, ni chomisiynwyd papurau briffio na chwestiynau posibl ar gyfer y sesiynau hyn.

# 2. Ymchwiliadau'r Pwyllgor yn y Trydydd Cynulliad

### Cyflwyniad

8. Fel y disgrifir ym Mhennod 1, cynhaliodd y Pwyllgor 16 o ymchwiliadau yn ystod y Trydydd Cynulliad. Mae'r bennod hon yn rhoi gwybodaeth gyffredinol am yr ymchwiliadau hynny ac, os yw'n briodol, bydd yn cynnwys gwybodaeth am y gwaith dilynol a wnaed gan y Pwyllgor ar ddiwedd y Trydydd Cynulliad.

### Cynllunio Gweithlu yn y Gwasanaeth Iechyd ac ym maes Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

9. Ym mis Mawrth 2008, cyhoeddodd y Pwyllgor ei Adroddiad ar Gynllunio Gweithlu yn y Gwasanaeth Iechyd ac ym maes Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Edrychodd yr ymchwiliad ar anawsterau recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol ac effaith polisïau'r Llywodraeth yn y meysydd hynny. Cyflwynodd yr adroddiad 28 o argymhellion mewn meysydd megis cynnwys Gweithwyr Proffesiynol Perthynol a'r sector gwirfoddol yn y system cynllunio'r gweithlu; ystyried nodau rhanbarthol a strategol wrth gynllunio'r gweithlu; a gwella’r broses o gasglu data am y gweithlu.

#### *Gwaith dilynol mis Mawrth 2011*

10. Gwnaeth y Pwyllgor waith dilynol ar yr ymchwiliad hwn ym mis Mawrth 2011, a chafodd dystiolaeth lafar gan Gymdeithas Feddygol Prydain, Cymdeithas Ddeintyddol Prydain, Coleg y Therapyddion Galwedigaethol, y Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi, y Coleg Nyrsio Brenhinol a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn eu tystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Cymdeithas Feddygol Prydain, Coleg y Therapyddion Galwedigaethol a'r Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi wrth y Pwyllgor mai cyfyngedig oedd ymgysylltiad rheolwyr Byrddau Iechyd Lleol yn y fforymau proffesiynol a oedd wedi'u sefydlu o ganlyniad i newid strwythur y GIG yng Nghymru, a bod eu hymgysylltiad yn hanfodol, gan fod fforymau proffesiynol yn gallu darparu cyngor gwerthfawr ar y cam cynllunio ynghylch y capasiti i gyflenwi gwasanaethau yn eu proffesiynau.

11. Mynegodd Cymdeithas Feddygol Prydain a Chymdeithas Ddeintyddol Prydain bryder cryf ynghylch casglu data am y gweithlu, gan gynnwys drwy'r cofnod staff electronig, a allai gategoreiddio staff

nad oeddent yn staff meddygol yn anghywir, gan arwain at anghysondeb yn y data a gesglir.

12. Mynegodd Cymdeithas Ddeintyddol Prydain bryder ynghylch y prinder cyrsiau hyfforddi ar gyfer nyrsys deintyddol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, a'r ffaith er bod y 22 Bwrdd Iechyd Lleol bellach wedi uno i greu saith, ei bod yn ymddangos bod gan bob un o'r hen Fyrddau Iechyd Lleol arweinydd deintyddol o hyd, sy'n golygu ei bod yn rhaid i Gymdeithas Ddeintyddol Prydain ddelio â 22 o gyrff gwahanol, i bob pwrpas. Roedd adroddiad y Pwyllgor wedi awgrymu y byddai modd defnyddio cymhelliannau ariannol i annog myfyrwyr o Gymru i hyfforddi yng Nghymru ac i annog meddygon sydd newydd gymhwyso i weithio mewn ardaloedd lle ceir prinder meddygon yng Nghymru. Dywedodd Cymdeithas Feddygol Prydain wrth y Pwyllgor na fu llawer o gynnydd yn y maes hwn ac y carai weld mwy o ymrwymiad ynghylch dyfodol bwrsariaeth GIG Cymru a chynllun i ehangu mynediad i ysgolion meddygol. Roedd Cymdeithas Feddygol Prydain hefyd wedi awgrymu nad cymhelliannau ariannol yw'r unig ffordd o gyflawni hyn, ond bod ar Gymru angen gwerthu ei chyrsiau hyfforddi gwych i ddarpar fyfyrwyr o'r tu hwnt i Gymru.

***Argymhelliad***
***Rydym yn argymell bod y pwyllgor sy'n olynu'r Pwyllgor hwn yn monitro cynllunio gweithlu yn y gwasanaeth iechyd ac ym maes gofal cymdeithasol.***

**Cynigion Ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad ar Strwythur y Gwasanaeth Iechyd Gwladol**

13. Ym mis Mehefin 2008, cyhoeddodd y Pwyllgor ei Adroddiad ar Gynigion Ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad ar Strwythur y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Er nad oedd y Pwyllgor yn teimlo ei bod yn briodol gwneud argymhellion ar rinweddau neu anfanteision cynigion penodol, amlinellodd ystod o faterion yr oedd yn meddwl y dylai'r Gweinidog eu hystyried wrth benderfynu ar ei chynigion terfynol.

**Caniatâd Tybiedig ar gyfer Rhoi Organau**

14. Ym mis Gorffennaf 2008, cyhoeddodd y Pwyllgor ei Adroddiad ar Ganiatâd Tybiedig i Roi Organau, a oedd yn edrych ar a ddylid cyflwyno caniatâd tybiedig i roi organau yng Nghymru ac a oedd yn edrych ar faterion megis y fframwaith cyfreithiol posibl ar gyfer system o ganiatâd tybiedig, safbwyntiau'r cyhoedd â phartïon a chanddynt

ddiddordeb, a sut byddai unrhyw system yng Nghymru yn gweithio ar y cyd â gweddill y DU. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion ar weithredu yng Nghymru argymhellion Tasglu Rhoi Organau'r DU, materion sy'n ymwneud â chapasiti, materion gweithredol a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd.

**Byrddau Gwasanaethau Lleol**

15. Ym mis Rhagfyr 2008, cyhoeddodd y Pwyllgor ei Adroddiad ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol. Roedd yr ymchwiliad hwn yn edrych ar gynnydd y chwe chynllun peilot Bwrdd Gwasanaethau Lleol a oedd ar waith yng Nghymru ar y pryd a sut gallai Byrddau Gwasanaethau Lleol ddatblygu yn y dyfodol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 12 o argymhellion, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud ag egluro swyddogaethau Byrddau Gwasanaethau Lleol; sicrhau cysondeb; statws y personél ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol; a swyddogaeth graffu Byrddau Gwasanaethau Lleol.

**Trefniadau Trosolwg a Chraffu Llywodraeth Leol**

16. Ym mis Mawrth 2008, cyhoeddodd y Pwyllgor ei Adroddiad ar Drefniadau Trosolwg a Chraffu Llywodraeth Leol. Yn 2004, roedd rhagflaenydd y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol, sef y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, wedi cyhoeddi adroddiad ar Weithredu'r Strwythurau Rheoli Gwleidyddol Newydd mewn Llywodraeth Leol, a oedd yn cynnwys argymhellion i Lywodraeth y Cynulliad ac i lywodraeth leol ar gryfhau swyddogaeth graffu cynghorwyr anweithredol. Yn yr ymchwiliad hwn, roedd y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol wedi adolygu'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu argymhellion adroddiad 2004 ac asesu pa ddatblygiadau pellach a oedd yn angenrheidiol er mwyn gwella ansawdd y gwaith craffu a throsolwg mewn llywodraeth leol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion a oedd yn ymwneud â chynyddu’r gefnogaeth a’r pwerau ar gyfer Pwyllgorau Craffu; cydweithredu a chydweithio; cyllido'r swyddogaeth drosolwg a chraffu; y Gronfa Datblygu Gwaith Craffu; hyfforddiant ar gyfer aelodau pwyllgorau craffu llywodraeth leol; llwybr gyrfa swyddogion cynghorau; chwipio mewn pwyllgorau craffu; a chydbwysedd pleidiol Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu.

***Gwaith Dilynol mis Chwefror 2011***

17. Gwnaeth y Pwyllgor waith dilynol ar yr ymchwiliad hwn ar 3 Chwefror 2011. Yn y cyfarfod hwnnw, nodwyd bod gwaith craffu awdurdodau lleol yn dal yn dameidiog iawn. Dywedodd y Gweinidog ei

fod yn gobeithio cyflwyno safon craffu sylfaenol drwy weithredu'r Mesur Llywodraeth Leol.

18. Cafodd y diffyg tryloywder mewn perthynas â chanlyniad gwaith craffu llywodraeth leol hefyd ei nodi yn y cyfarfod hwnnw, gan nad oes dim gofyniad statudol ar weithrediaeth llywodraeth leol i ymateb i adroddiadau pwyllgorau craffu.

19. Nodwyd hefyd bod diffyg tystiolaeth o waith yn cael ei wneud i ddatblygu'r cysyniad o 'Ysgol Graffu', gan gynnwys ymchwilio i sut gallai defnyddio cyrsiau ag achrediad academaidd chwarae rhan mewn datblygu sgiliau craffu. Ymrwymodd y Gweinidog i ailedrych i weld a oedd cyfle i gryfhau'r broses achredu. Ar ôl y cyfarfod, hysbysodd y Gweinidog y Pwyllgor fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cysylltu â Phrifysgol Morgannwg gyda'r bwriad i'r brifysgol ddarparu cwrs i gynghorwyr o fis Ionawr 2013 ymlaen.

***Argymhelliad***
***Rydym yn argymell bod pwyllgor yn y dyfodol yn monitro datblygiadau yn nhrefniadau trosolwg a chraffu llywodraeth leol.***

**Trefniadau Cyflog Cyfartal ym myd Llywodraeth Leol**

20. Ym mis Ionawr 2009, ysgrifennodd y Pwyllgor at Brian Gibbons, y cyn Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, gyda chanfyddiadau ac argymhellion ei Ymchwiliad i Drefniadau Cyflog Cyfartal ym myd Llywodraeth Leol. Gwnaeth y Pwyllgor bedwar argymhelliad a oedd yn ymwneud â sefydlu faint o arian roedd pob awdurdod wedi'i wario ar weithredu systemau cyflog cyfartal; pennu dyddiad pan fyddai cyllid Llywodraeth Cymru'n dod i ben i awdurdodau lleol nad oeddent wedi cwblhau trefniadau cyflog cyfartal; y ffaith na ddylai awdurdodau sy'n dweud nad oes ganddynt ddim atebolrwydd am ôl-daliadau ac nad oes angen iddynt newid systemau tâl, gael dim arian ychwanegol mwyach gan Lywodraeth y Cynulliad; a bod cyfarfod brys o'r holl bartïon dan sylw yn cael ei gynnal gyda'r nod o ail-ganolbwyntio sylw ar drefniadau cyflog cyfartal mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

***Gwaith Dilynol mis Chwefror-Mawrth 2011***

21. Gwnaeth y Pwyllgor rywfaint o waith dilynol ar yr ymchwiliad hwn ym mis Chwefror a mis Mawrth 2011, a chafodd dystiolaeth lafar gan Unsain, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

22. Clywodd y Pwyllgor nad oedd dros hanner awdurdodau lleol Cymru wedi gorffen gweithredu'r trefniadau statws sengl eto, ac y gallai hyn gymryd nifer o flynyddoedd eto. Clywodd y Pwyllgor hefyd y gallai'r ffaith nad yw'r trefniadau hyn ar waith eto mewn nifer o awdurdodau lleol achosi problemau difrifol o ran cynigion y Llywodraeth i edrych ar wasanaethau a rennir ar draws awdurdodau lleol Cymru yn y dyfodol.

***Argymhelliad***
***Rydym yn argymell bod pwyllgor yn y dyfodol yn monitro gweithredu'r trefniadau statws sengl.***

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol**

23. Ym mis Medi 2009, cyhoeddodd y Pwyllgor ei Adroddiad ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol. Roedd yr ymchwiliad hwn yn edrych ar ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned yng Nghymru ar gyfer pobl rhwng 16 a 60 oed, gyda ffocws penodol ar gapasiti ac argaeledd daearyddol gwasanaethau; darparu gwasanaethau i bobl ifanc dros 16 oed sy'n trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion; effaith effeithiolrwydd gwasanaethau cymunedol ar dderbyniadau mewn ysbytai ac oedi wrth drosglwyddo gofal; cydlynu elfennau iechyd a gofal cymdeithasol gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol yn effeithiol; materion cydraddoldeb sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol, gan gynnwys y rheini ar gyfer grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion ynghylch sefydlu gwasanaeth iechyd meddwl yn benodol ar gyfer pobl ifanc rhwng 17 a 25 oed a fyddai'n hwyluso'r broses o bontio i wasanaethau oedolion ar adeg sy'n briodol i bob unigolyn ifanc; rhoi sylw i wendidau ac amrywioldeb mewn gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol; gwella lefelau gwybodaeth a sgiliau iechyd meddwl ymysg staff sy'n gweithio mewn gofal sylfaenol; a chynyddu nifer y nyrsys iechyd meddwl ac egluro swyddogaethau a disgwyliadau gwasanaethau iechyd meddwl mewn gofal sylfaenol; sicrhau bod y cynllun iechyd gwledig yn mynd i'r afael â mynediad pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru at wasanaethau iechyd meddwl cymunedol.

**CAFCASS Cymru**

24. Hefyd ym mis Medi 2009, cyhoeddodd y Pwyllgor ei Adroddiad ar CAFCASS Cymru, a oedd yn archwilio gwaith CAFCASS Cymru ac yn adolygu'r trefniadau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau CAFCASS i blant a phobl ifanc yng Nghymru ers iddo gael ei ddatganoli i Lywodraeth

Cynulliad Cymru ym mis Ebrill 2005. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys argymhellion ar wasanaethau eirioli i blant; bod CAFCASS yn sicrhau dull gweithredu cyson a phriodol wrth gysylltu â phlant, aelodau'r teulu ac asiantaethau eraill; sicrhau gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y plentyn; sicrhau bod CAFCASS Cymru yn cael ei gynrychioli ar bob bwrdd diogelu plant lleol; a chyllid ar gyfer canolfannau cyswllt plant.

***Gwaith dilynol mis Mawrth 2011***

25. Gwnaeth y Pwyllgor rywfaint o waith dilynol ar yr ymchwiliad hwn ym mis Mawrth 2011, a chafodd dystiolaeth lafar gan CAFCASS, y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant a'r Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol.

26. Dywedodd CAFCASS wrth y Pwyllgor fod y gwaith ar yr argymhellion a ganlyn yn dal ar gam cynnar iawn, bron i ddwy flynedd yn ddiweddarach:

> “Rydym yn argymell bod CAFCASS yn cynnig trefniadau cyllido tair blynedd ar unwaith i'r canolfannau cyswllt plant yng Nghymru y maent eisoes yn eu cyllido ar lefel eu trefniadau cyllido presennol. [Argymhelliad 15]
>
> “Rydym yn argymell bod CAFCASS a Gweinidogion Cymru yn llunio strategaeth gyllido ar gyfer yr holl ganolfannau cyswllt plant yng Nghymru, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn eu cyllido ar hyn o bryd, sydd wedi ei seilio ar yr egwyddorion a amlinellir yn yr adroddiad hwn. [Argymhelliad 16]”

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod CAFCASS yn edrych ar ffenestr o chwech i naw mis ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn. Efallai, felly, y bydd y pwyllgor a fydd yn olynu’r Pwyllgor hwn am fonitro'r cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion hyn.

***Argymhelliad***
***Efallai y bydd ar bwyllgor yn y dyfodol eisiau monitro'r cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion a wnaed yn yr Adroddiad ar CAFCASS Cymru a pharhau i adolygu'r sefyllfa.***

**Defnyddio Gwelyau Haul a'u Rheoleiddio yng Nghymru**

27. Ym mis Tachwedd 2009, cyhoeddodd y Pwyllgor ei Adroddiad ar y Defnydd o Welyau Haul a'u Rheoleiddio, ar ôl i faterion gael eu codi ynghylch y peryglon posibl i iechyd sy'n gysylltiedig â defnyddio gwelyau haul, ac yn enwedig plant yn defnyddio salonau gwelyau haul heb oruchwyliaeth. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion ar bennu ei bod yn rhaid i rywun fod yn 18 oed cyn cael defnyddio gwely haul a sicrhau bod safleoedd gwelyau haul yn cael eu goruchwylio'n barhaus gan staff wedi'u hyfforddi.

**Gwasanaethau Strôc yng Nghymru**

28. Ym mis Ebrill 2010, cyhoeddodd y Pwyllgor ei Adroddiad ar Wasanaethau Strôc yng Nghymru. Cafodd yr ymchwiliad hwn ei gynnal yn sgil beirniadaeth o wasanaethau strôc yng Nghymru, yn benodol yng nghyfres o adroddiadau Archwiliadau Strôc Cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Goleg Brenhinol y Ffisigwyr, a oedd yn codi pryderon difrifol am ansawdd gwasanaethau. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion ar gynyddu nifer yr unedau strôc arbenigol; sefydlu cofrestr strôc genedlaethol; a sefydlu strategaeth strôc i Gymru gyfan.

**Gwasanaethau Cadeiriau Olwyn yng Nghymru**

29. Ym mis Mai 2010, cyhoeddodd y Pwyllgor ei Adroddiad ar Wasanaethau Cadeiriau Olwyn yng Nghymru. Cafodd yr ymchwiliad hwn ei gynnal o ganlyniad i feirniadaeth o effeithiolrwydd y gwasanaethau hyn i ateb anghenion defnyddwyr gwasanaeth. Roedd amseroedd aros ar gyfer asesu a darparu wedi achosi pryder penodol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion ynghylch strwythur, cyfeiriad strategol a gweithrediad y gwasanaeth a ddarperir gan y GIG; cydweithio, er enghraifft â'r sector gwirfoddol ac elusennau; ac ateb anghenion ehangach defnyddwyr gwasanaethau cadeiriau olwyn.

**Gofal Newyddenedigol yng Nghymru**

30. Ym mis Gorffennaf 2010, cyhoeddodd y Pwyllgor ei Adroddiad ar Ofal Newyddenedigol yng Nghymru. Roedd yr ymchwiliad hwn yn edrych ar y cynnydd o ran cyflawni Safonau Newyddenedigol Cymru Gyfan a gweithredu argymhellion y grŵp arbenigol ar Wasanaethau Newyddenedigol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion ar gyllido gofal newyddenedigol, staffio mewn unedau gofal newyddenedigol a’r defnydd ohonynt; gwasanaethau cludo babanod

newydd-anedig, a gweithredu Safonau Newyddenedigol Cymru Gyfan y grŵp arbenigol a sefydlwyd gan y Gweinidog.

**Byrddau Lleol Diogelu Plant yng Nghymru**

31. Ym mis Tachwedd 2010, cyhoeddodd y Pwyllgor ei Adroddiad ar Fyrddau Lleol Diogelu Plant yng Nghymru. Roedd yr ymchwiliad hwn yn edrych i weld a oedd Byrddau Lleol Diogelu Plant yn perfformio'n effeithiol ac yn gyson ledled Cymru o ran cryfhau'r trefniadau i warchod a hyrwyddo lles plant. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion ar fynd i'r afael â'r orddibyniaeth ar Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol; codi ymwybyddiaeth ynghylch swyddogaeth Byrddau Lleol Diogelu Plant ymysg staff rheng flaen; ac ymgynghori ar fformiwla gyllido genedlaethol ar gyfer Byrddau Lleol Diogelu Plant.

**Triniaeth ar gyfer Anhwylder Straen wedi Trawma i Gyn-filwyr y Lluoedd Arfog**

32. Ym mis Chwefror 2011, cyhoeddodd y Pwyllgor ei Adroddiad ar Driniaeth ar gyfer Anhwylder Straen wedi Trawma i Gyn-filwyr y Lluoedd Arfog. Roedd yr ymchwiliad hwn yn ystyried pa mor ddigonol ac addas yw'r gwasanaethau yng Nghymru gan gynnwys, ymysg pethau eraill, trefniadau i godi ymwybyddiaeth ynghylch anhwylder straen wedi trawma ac ar gyfer cyfeirio unigolion at driniaethau a gwasanaethau cefnogi; adnabod cyn-filwyr sy'n dioddef o anhwylder straen wedi trawma a chasglu data ar ba mor gyffredin yw'r cyflwr; pa mor ddigonol ac addas yw'r triniaethau a gwasanaethau cefnogi gan gynnwys gwasanaethau i ymdrin â chamddefnyddio alcohol a chyffuriau. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion ar gasglu data yn well ar achosion o anhwylder straen wedi trawma; codi ymwybyddiaeth ynghylch anhwylder straen wedi trawma ymysg cyn-filwyr a'u teuluoedd; a gwella mynediad at wasanaethau i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau i gyn-filwyr sydd ag anhwylder straen wedi trawma; a throsglwyddo hanes meddygol o'r lluoedd arfog i feddygfeydd meddygon teulu.

**Gwasanaethau Orthodontig yng Nghymru**

33. Hefyd ym mis Chwefror 2011, cyhoeddodd y Pwyllgor ei Adroddiad ar Wasanaethau Orthodontig yng Nghymru. Ymysg pethau eraill, roedd yr ymchwiliad hwn yn edrych ar effaith y contract deintyddol newydd ar ddarparu gofal orthodontig; effeithiolrwydd triniaethau orthodontig ar draws yr amryfal ddarparwyr; a'r trefniadau

ar gyfer monitro safonau cyflenwi a chanlyniadau gofal yn y GIG a'r sector annibynnol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion ar gyfer cyflwyno cyfradd Uned Asesu Safonol; cyllido menter rhestr aros i glirio'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros am driniaethau orthodontig; a mynd i'r afael â phroblem cyfeiriadau amhriodol.

**Adolygiadau GIG**

34. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi cynnal ymchwiliad i'r ffordd y caiff adolygiadau'r GIG eu cynnal a chanllawiau'r Llywodraeth ar ymgysylltiad ac ymgynghori ar newidiadau i wasanaethau iechyd. Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn amlinellu'r materion yr oedd yn teimlo y dylai'r Byrddau Iechyd Lleol eu hystyried wrth gynnal adolygiadau, ymgynghori ac ymgysylltu ym mis Mawrth 2011.

**Gwaith Ychwanegol. Achosion o E.coli ac Argymhellion Pennington**

35. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi gwneud gwaith i edrych ar sut roedd y Llywodraeth yn gweithredu argymhellion Adroddiad Pennington ar yr Achosion o E.coli yng Nghymru yn 2005. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Prif Weinidog roi tystiolaeth ar y pwnc hwn ar 8 Gorffennaf 2010. Cyhoeddodd y Prif Weinidog ddatganiad ar 19 Hydref 2010 yn amlinellu'r cynnydd a wnaed. Dywedodd fod yr Athro Pennington wedi mynegi ei fod yn credu bod cynnydd da yn cael ei wneud a bod yr awdurdodau lleol a oedd wedi cael eu beirniadu yn ei adroddiad wedi cael eu gweddnewid. Yn ei ddatganiad, dywedodd y Prif Weinidog hefyd fod Rhaglen Cyflenwi Hylendid Bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn ymgynghori ynghylch egwyddorion canllawiau i fusnesau bwyd sy'n delio â bwyd amrwd a pharod; bod Uned Ymchwil Gwyddor Gymdeithasol yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi comisiynu adolygiad o dystiolaeth i ymchwilio i ddiwylliant ac ymddygiad mewn busnesau a chyrff gorfodi er mwyn deall "beth sy'n gweithio" o ran sicrhau cydymffurfiad â rheoliadau, yn enwedig mewn perthynas â diogelwch bwyd; a'i fod wedi comisiynu'r Asiantaeth Safonau Bwyd i archwilio'r ffordd y caiff diogelwch bwyd ei reoli yng Nghymru ac asesu pa sgiliau ac adnoddau priodol y mae eu hangen er mwyn gwneud hynny'n effeithiol.

36. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch y gwahaniaeth rhwng y £200,000 a glustnodwyd gan y Llywodraeth i weithredu argymhellion Pennington a'r £2.75 miliwn a awgrymwyd gan yr Athro Pennington. Efallai y bydd ar y pwyllgor olynol eisiau ystyried faint o gyllid a ddyrennir i roi'r argymhellion hyn ar waith.

***Argymhelliad***
***Efallai y bydd ar bwyllgor olynol eisiau monitro gwaith yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn y maes hwn yn ogystal â chynnydd Llywodraeth Cymru o ran gweithredu'r argymhellion sy'n uniongyrchol berthnasol iddynt.***

# 3. Gwaith i’r Dyfodol

37. Efallai y bydd ar bwyllgor(au) y Pedwerydd Cynulliad eisiau monitro cynnydd gweithredu'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yn ei ymchwiliadau drwy gydol y Trydydd Cynulliad.

38. Fel y disgrifir ym Mhennod 2, mae'r Pwyllgor wedi nodi nifer o feysydd y mae’n bosibl y bydd y pwyllgor a fydd yn olynu’r Pwyllgor hwn am eu hystyried. Mae'r rhain yn cynnwys cynllunio gweithlu yn y gwasanaeth iechyd ac ym maes gofal cymdeithasol, trefniadau trosolwg a chraffu llywodraeth leol; trefniadau cyflog cyfartal mewn llywodraeth leol; CAFCASS Cymru; a gwaith yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar ddiogelwch bwyd.

39. Yn ystod y Trydydd Cynulliad, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cytuno ar nifer o Fesurau Cynulliad ym meysydd iechyd, lles a llywodraeth leol, gan gynnwys y Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG, ac mae'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol yn argymell bod y pwyllgor(au) a fydd yn olynu’r Pwyllgor hwn yn monitro effaith ac effeithiolrwydd deddfwriaeth ym meysydd iechyd, lles a llywodraeth leol.

40. Rydym o'r farn y dylai'r pwyllgor olynol ystyried gweithredu system o ymgysylltu parhaus â'r cyhoedd, gan gynnwys gwahoddiad sefydlog i'r cyhoedd awgrymu pwnc ar gyfer ymchwiliadau'r pwyllgor. Yn ogystal, rydym o'r farn y dylid cyhoeddi blaenraglen waith y pwyllgor, er mwyn caniatáu i randdeiliaid gyfrannu ati.

**Awgrymiadau gan Randdeiliaid a'r Cyhoedd**

Ym mis Chwefror 2011, ysgrifennodd y Pwyllgor at randdeiliaid yn gofyn iddynt ba feysydd yr hoffent weld y pwyllgor a fydd yn ei olynu yn mynd i'r afael â nhw yn y pedwerydd Cynulliad. Gofynnwyd am awgrymiadau ar wefan y Pwyllgor hefyd. Mae rhestr o'r ymatebion i’w cael yn Atodiad A.

# Atodiad A – Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Roedd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn wedi ymateb i wahoddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol am feysydd y gallai'r pwyllgor a fydd yn ei olynu eu hystyried yn y Pedwerydd Cynulliad. Mae modd gweld yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn llawn yn: http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-hwlg-home/hwlg-legacy_page.htm

| *Enw* | *Cyfeirnod* |
|---|---|
| Cyfeillion y Ddaear y Fenni a Chrughywel | HWLG(3)-LEGACY001 |
| Age Cymru | HWLG(3)-LEGACY002 |
| Antur Ystradgynlais | HWLG(3)-LEGACY003 |
| Cymdeithas er Lles Plant mewn Ysbyty | HWLG(3)-LEGACY004 |
| BASW – Coleg Gwaith Cymdeithasol | HWLG(3)-LEGACY005 |
| Cymdeithas Ddiabetig Prydain | HWLG(3)-LEGACY006 |
| Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint yng Nghymru | HWLG(3)-LEGACY007 |
| Cyngor Gofal Cymru | HWLG(3)-LEGACY008 |
| Comisiynydd Plant Cymru | HWLG(3)-LEGACY009 |
| Coleg y Therapyddion Galwedigaethol | HWLG(3)-LEGACY010 |
| Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol Sir y Fflint | HWLG(3)-LEGACY011 |
| Gofal | HWLG(3)-LEGACY012 |
| Andrew Johnson | HWLG(3)-LEGACY013 |
| Cymorth Canser MacMillan | HWLG(3)-LEGACY014 |
| Neil McKenzie | HWLG(3)-LEGACY015 |
| National Energy Action Cymru | HWLG(3)-LEGACY016 |
| Pathways | HWLG(3)-LEGACY017 |
| Platform 51 | HWLG(3)-LEGACY018 |
| Chwarae Cymru | HWLG(3)-LEGACY019 |
| Awdurdodau Heddlu Cymru | HWLG(3)-LEGACY020 |
| Susan Riggs | HWLG(3)-LEGACY021 |
| Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol | HWLG(3)-LEGACY022 |

| | |
|---|---|
| Seren | HWLG(3)-LEGACY023 |
| Stonewall Cymru | HWLG(3)-LEGACY024 |
| Jayne Sullivan | HWLG(3)-LEGACY025 |
| Rhiannon Walding | HWLG(3)-LEGACY026 |
| Cynghrair Canser Cymru | HWLG(3)-LEGACY027 |
| Weight Watchers | HWLG(3)-LEGACY028 |
| Senedd Pobl Hŷn Cymru | HWLG(3)-LEGACY029 |
| Vivienne Williams | HWLG(3)-LEGACY030 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | HWLG(3)-LEGACY031 |

# Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

## CELG(4)-01-11 : Papur 4

**I:** Pwyllgorau'r Cynulliad

**Wrth:** Gwasanaeth y Pwyllgorau a'r Swyddfa Ddeddfwriaeth

**Dyddiad:** Gorffennaf 2011

**PWYLLGORAU'R PEDWERYDD CYNULLIAD**

**Sefydlu pwyllgorau a'u cylch gwaith**

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth gefndirol am y strwythur pwyllgorau newydd yn y Pedwerydd Cynulliad a dulliau mwy hyblyg o weithio.

2. Mae Rheol Sefydlog 16.1 yn ei gwneud yn ofynnol bod y Cynulliad yn sefydlu pwyllgorau sydd â'r pŵer o fewn eu cylch gwaith i:

   (i) archwilio gwariant, dull gweinyddu a pholisi'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus cysylltiedig;
   (ii) archwilio deddfwriaeth;
   (iii) cyflawni swyddogaethau a nodir yn y Rheolau Sefydlog; a
   (iv) ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru.

3. Wrth wneud hynny, roedd yn rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod pob maes cyfrifoldeb y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, a phob mater sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a swyddogaethau Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol, yn destun gwaith craffu gan bwyllgor neu bwyllgorau.

4. Mae'r Cynulliad wedi pennu strwythur pwyllgorau sy'n rhoi pŵer iddynt graffu ar y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus cysylltiedig ac ar ddeddfwriaeth, o fewn cylch gwaith pwnc. Mae'n gofyn iddynt gyflawni'r ddwy brif swyddogaeth hyn. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa yn y Trydydd Cynulliad pan oedd pwyllgorau ar wahân wedi'u sefydlu at y dibenion hyn.

5. Ar 22 Mehefin, sefydlodd y Cynulliad bum pwyllgor i gyflawni'r swyddogaethau a nodir uchod. Y pwyllgorau hyn yw:

- Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
- Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
- Y Pwyllgor Menter a Busnes
- Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
- Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

6. Mae cylch gwaith y pwyllgorau yn eang a, gan mwyaf, maent yn pontio portffolios y Gweinidogion. Fodd bynnag, mae gan y pwyllgorau hyblygrwydd i archwilio unrhyw fater sy'n berthnasol i'r cylch gwaith eang a ddiffinnir yn eu teitlau ac nid oes cyfyngiad arnynt o ran archwilio unrhyw fater perthnasol.

7. Sefydlwyd pum pwyllgor ychwanegol i gyflawni'r swyddogaethau eraill a nodir yn y Rheolau Sefydlog. Bydd materion Ewropeaidd yn cael eu cynnwys yng ngwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a'r pum pwyllgor sydd â thema iddynt.

**Prif swyddogaethau'r pwyllgorau**

*Craffu ar ddeddfwriaeth*

8. Mae gan y pwyllgorau'r pŵer cyffredinol i archwilio deddfwriaeth o fewn eu cylch gwaith. Yn ogystal, bydd y pwyllgorau'n gyfrifol am graffu ar Filiau'r Llywodraeth a Biliau nad ydynt yn rhai'r Llywodraeth y bydd y Pwyllgor Busnes yn eu cyfeirio iddynt.

   Yn ogystal, gall y pwyllgorau:

   - graffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol y mae'r Pwyllgor Busnes yn eu cyfeirio iddynt; a
   - craffu ar gynigion deddfwriaethol y DU a'r Undeb Ewropeaidd (a'u goblygiadau) a ddaw o fewn cylch gwaith y pwyllgorau.

*Craffu ar waith y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus cysylltiedig*

9. Mae gan y pwyllgorau'r pwerau i archwilio gwariant, dull gweinyddu a pholisi'r Llywodraeth a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig. Gall pwyllgor

ddewis cyflawni'r swyddogaethau hyn mewn sawl ffordd, er enghraifft drwy:

- gynnal cyfarfodydd rheolaidd i graffu ar waith y Gweinidogion ac ar y gyllideb bob blwyddyn;
- craffu'n ddwys ar bolisi, dull gweinyddu a gwariant Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, yn arferol drwy ymchwiliadau pwyllgor;
- gwaith craffu dilynol ar weithredu'r argymhellion a wnaed mewn adroddiadau blaenorol, ac ati;
- craffu ar rôl Llywodraeth Cymru o ran dylanwadu ar ddatblygiadau polisi'r UE sy'n arbennig o berthnasol i Gymru, o fewn cylch gwaith y pwyllgor, yn enwedig o ran llywio dull negodi'r DU ym Mrwsel, a hyrwyddo barn Gymreig i'r Comisiwn Ewropeaidd, Senedd Ewrop (gan gynnwys Aelodau Cymru o Senedd Ewrop yn benodol) a thrwy sianelau eraill;
- cynnal gwaith craffu ar ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i gylch gwaith y pwyllgor ar ôl iddi gael ei phasio.

10. Un o fuddiannau mwyaf y dull newydd i'r pwyllgorau yw y gall Aelodau gasglu gwybodaeth a datblygu arbenigedd polisi arbenigol a'u rhoi ar waith o ran yr holl waith craffu a wnânt.

**Cyflawni sawl rôl**

11. Er bod nifer llai o bwyllgorau, ni fydd hyn yn newid y gwaith sydd i'w wneud na'r amser sydd ei angen i gyflawni holl weithgareddau'r pwyllgorau. Mae hon yn system radical a heriol a bydd yn rhaid i'r pwyllgorau reoli rhaglen waith heriol ac amrywiol.

12. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgorau drefnu eu cynllun gwaith yn ofalus. Bydd angen iddynt fod yn systematig a hyblyg o ran blaenoriaethu gwaith ac ystyried sut y gallant wneud eu tasgau yn y ffordd fwyaf effeithiol er mwyn cael yr effaith fwyaf. Mae papur sy'n tynnu sylw at y materion hyn wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

13. Mae pum pwyllgor pwnc wedi'u sefydlu sydd â digon o aelodau i'w galluogi i wneud sawl darn o waith mewn is-bwyllgorau ffurfiol neu anffurfiol neu mewn grwpiau rapporteur, yn ogystal â gwneud gwaith fel pwyllgor cyflawn. Bydd hyn yn galluogi i waith polisi a gwaith deddfwriaethol ddigwydd ar yr un pryd. Er enghraifft, gellid defnyddio grwpiau llai i gynnal

ymchwiliadau arbenigol mwy manwl, gan wneud defnydd o aelodau'r pwyllgor sydd â diddordeb penodol mewn maes pwnc. Mae'r hyblygrwydd hwn yn galluogi'r pwyllgorau i ymateb yn well i flaenoriaethau amrywiol neu i newidiadau dirybudd yn y dirwedd wleidyddol. Mae hefyd yn galluogi defnydd mwy effeithlon o amser o gofio natur anrhagweladwy gwaith deddfwriaethol.

14. Bydd angen i rai o gyfrifoldebau'r pwyllgorau gael eu cyflawni gan ddilyn gweithdrefnau penodol. Y mwyaf amlwg o'r rhain yw'r broses o ystyried deddfwriaeth. Bydd yn rhaid cynnwys yr ystod o gonfensiynau a gafodd eu mabwysiadu yn y Trydydd Cynulliad yn y system, neu eu hadolygu, fel y bydd deddfwriaeth yn cael ei hystyried yn drylwyr pa bynnag bwyllgor sy'n gwneud y gwaith. Bydd angen darparu canllawiau ar sut i ystyried deddfwriaeth mewn amgylchiadau amrywiol, er enghraifft gan bwyllgor llawn neu is-bwyllgor.

15. Er mwyn gallu cynnwys y gwaith a gynhyrchir gan bortffolios eang a chyfrifoldeb ar y cyd am graffu ar ddeddfwriaeth a pholisi, bydd blociau sylweddol o amser yn yr amserlen wythnosol ar gael i'r pwyllgorau bob wythnos. Neilltuwyd un diwrnod a hanner pob pythefnos i bob un o'r pum pwyllgor i'w defnyddio i wneud eu gwaith. Rhennir hyn yn hanner diwrnod a diwrnod llawn bob yn ail wythnos.

**Atodiad A: Dull strategol posibl ar gyfer cynllunio gwaith**

1. Mae'r atodiad hwn yn amlinellu dull strategol posibl ar gyfer cynllunio gwaith pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad. Mae'r dull wedi'i seilio ar yr arferion da a ddatblygwyd gan rai pwyllgorau blaenorol ar gyfer cynllunio eu gwaith. Mae hefyd yn ystyried cyfrifoldebau ehangach y pwyllgorau, goblygiadau'r amseru o ran craffu ar ddeddfwriaeth a materion capasiti yn y Pedwerydd Cynulliad. Yn yr un modd ag yng nghyd-destun Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gellir ystyried bod gan y pwyllgorau dair swyddogaeth eang:

   - Deddfu ar gyfer pobl Cymru
   - Dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif
   - Cynrychioli pobl Cymru

2. Mae'r olaf o'r rhain fel arfer yn dylanwadu ar sut y bydd y pwyllgorau'n cyflawni'r ddwy swyddogaeth arall, o ran ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl Cymru yn eu gwaith, a sicrhau bod barn pobl Cymru'n cael ei chynrychioli yn y gwaith craffu.

3. Bydd gan y pwyllgorau'r capasiti i graffu ar ddeddfwriaeth a pholisi ar yr un pryd, drwy wneud mwy o ddefnydd o is-bwyllgorau ffurfiol ac anffurfiol a grwpiau rapporteur ac ati, yn ogystal â chynnal cyfarfodydd llawn o'r pwyllgor.

4. Prif ddiben y dull strategol hwn yw penderfynu pa waith y gellir ei wneud i helpu'r pwyllgor i reoli portffolio heriol ac amrywiol o gyfrifoldebau. Byddai mabwysiadu'r dull hwn yn golygu y bydd pwyllgor, wrth ystyried rhaglen waith, yn cael gwybodaeth gynhwysfawr am y materion o fewn ei gylch gwaith, mewn fformat syml. Ar sail y wybodaeth hon, byddai'r pwyllgor mewn sefyllfa i ddewis y materion y mae am eu hystyried fel rhan o'i flaenraglen waith.

**Penderfynu ar waith posibl**

*Goblygiadau amseriad gwaith craffu deddfwriaethol ar raglenni gwaith y pwyllgorau*

5. Gall y Pwyllgor Busnes ofyn i'r Pwyllgorau ystyried Biliau neu Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol penodol. Os bydd y Pwyllgor Busnes yn gwneud hyn, rhaid iddo bennu'r dyddiad olaf y cytunwyd arno i bwyllgor gyflwyno ei adroddiad. Fel arfer, yn ystod y Trydydd Cynulliad, roedd gan y pwyllgorau gyfnod o rhwng chwech a 12 wythnos i gyflwyno adroddiad.

6. Bydd swm y ddeddfwriaeth y bydd unrhyw un o'r pwyllgorau'n ymdrin ag ef yn dibynnu ar bwnc y ddeddfwriaeth a gyflwynir i'r Cynulliad, sy'n cynnwys Biliau'r Llywodraeth a Biliau nad ydynt yn rhai'r Llywodraeth.

7. Ni fydd gan y pwyllgorau unrhyw reolaeth uniongyrchol dros pryd y bydd deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno na'r dyddiad ar gyfer cyflwyno adroddiadau. O'r herwydd, pan fyddant yn llunio eu rhaglenni gwaith, bydd yn bwysig iddynt fod yn ddigon hyblyg i allu ymateb i unrhyw waith a gyfeirir iddynt mewn modd amserol.

8. Ar 14 Mehefin 2011, gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau deddfu Llywodraeth Cymru. Ar 12 Gorffennaf 2011, bydd cyhoeddiad yn cael ei wneud ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru am y pum mlynedd nesaf. Er y bydd y rhain yn rhoi amcan o beth fydd pynciau'r ddeddfwriaeth a gyflwynir yn y Pedwerydd Cynulliad, ni ragwelir y bydd yr amserau penodol ar gyfer cyflwyno darnau unigol o ddeddfwriaeth yn cael eu cynnwys; fel arfer, bydd y Llywodraeth yn cyflwyno Biliau heb fawr o rybudd.

*Nodi'r blaenoriaethau ar gyfer craffu ar waith y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus cysylltiedig*

9. Wrth flaenoriaethau ei waith, mae'n bosibl y bydd pwyllgor yn dymuno ystyried:

*Cwmpasu ehangder portffolio'r pwyllgor*

Mae gan bob pwyllgor gylch gwaith eang. Yn ystod cyfnod Cynulliad, gallai fod yn rhesymol disgwyl i bwyllgor wneud gwaith ar faterion pwysig mewn perthynas â phob mater o fewn ei gylch gwaith.

*Ystod cyfrifoldebau'r pwyllgor*

Yn ogystal â chyflawni prif swyddogaethau archwilio Biliau penodol a gyfeirir iddynt gan y Pwyllgor Busnes, a chynnal ymchwiliadau sy'n craffu

ar bolisi, dull gweinyddu a gwariant y Llywodraeth, bydd yn rhaid i bwyllgor sicrhau ei fod yn gwneud gwaith sy'n pontio ei holl gyfrifoldebau. Dyma rai enghreifftiau:

- craffu'n uniongyrchol ar waith y Gweinidogion mewn perthynas â'u cyfrifoldebau;
- craffu ar gynigion cyllideb;
- craffu ar gynigon deddfwriaethol y DU a'r Undeb Ewropeaidd;
- Ystyried y deisebau a gyfeirir iddynt gan y Pwyllgor Deisebau;
- cynnal gwaith craffu ar ddeddfwriaeth wedi iddi gael ei phasio i archwilio effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth;
- gwneud gwaith dilynol ar sut y gweithredwyd yr argymhellion:
- cymryd ymagwedd strategol i ddatblygiadau polisi allweddol ar lefel yr UE sydd o bwys arbennig i Gymru, a chraffu ar sut y rhoddir rhaglenni/mentrau ariannu'r UE ar waith yng Nghymru.

*Ffocws cwmpas ymchwiliadau*

Bydd ymchwiliadau fel arfer yn canolbwyntio ar bynciau o fewn cylch gwaith pwyllgor. Fodd bynnag, mae cylch gwaith y pwyllgorau'n eang ac yn drawsbynciol, ac mae'n bosibl y bydd yr Aelodau, wrth flaenoriaethau ymchwiliadau, yn dymuno ystyried a yw unrhyw bwyllgorau eraill yn cynnal ymchwiliadau tebyg (neu wedi eu cynnal yn ddiweddar). Mae'n bosibl hefyd y byddant yn dymuno ystyried gwaith tebyg sy'n cael ei wneud gan sefydliadau eraill.

Gall fod achlysuron hefyd pryd y byddai cyd-gysylltu gwaith ar draws y pwyllgorau o fudd, er enghraifft, mae rhai datblygiadau polisi allweddol yr UE yn pontio nifer o feysydd polisi.

*Effaith a chanlyniad posibl ymchwiliad*

Mae'n bosibl y bydd pwyllgor yn dymuno ystyried a oes tystiolaeth (gan gynnwys tystiolaeth anecdotaidd) sy'n awgrymu bod y mater dan sylw yn peri pryder amlwg i bobl Cymru, neu i grwpiau penodol o bobl yng Nghymru. Mae deisebau yn un ffordd y gall pobl amlygu'r materion hyn. Gall amseru fod yn allweddol i effeithiolrwydd darn penodol o waith. Gall pwyllgorau hefyd ystyried ar ba gam mae Llywodraeth Cymru yn ei phroses o wneud penderfyniadau. Mae hyn yn debygol o olygu bod angen i'r Llywodraeth roi gwybodaeth i'r pwyllgorau.
*Adnoddau y byddai ar y Pwyllgor eu hangen i gynnal ymchwiliad craffu.*

Gall hwn fod yn amser defnyddiol i'r pwyllgorau ystyried a allai ymchwiliad penodol ddefnyddio dull arloesol i gasglu tystiolaeth sy'n torri tir newydd (mae enghreifftiau o'r hyn a ddefnyddiwyd yn y gorffennol ar gael). Mae'n bosibl y bydd y pwyllgorau am ystyried yn y cam hwn beth yw'r ffordd orau o gael gafael ar yr arbenigedd sydd ei angen ar gyfer darn o waith.

**Leighton Andrews AC / AM**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**
**Minister for Education and Skills**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref SF/LA/5226/11

Ann Jones AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau,
Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Tŷ Hywel,
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1NA.

29 Mehefin 2011

Annwyl Ann,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn y ddadl a'r bleidlais ddoe ar Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011 (" y rheoliadau"). Rwy'n falch y cymeradwywyd y rheoliadau gan y Cynulliad Cenedlaethol ac y gallwn yn awr ganolbwyntio ar wneud y trefniadau ymarferol ar gyfer penodi'r Comisiynydd.

Pan fu'r Cynulliad yn craffu ar Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mynegwyd dymuniad gan Aelodau'r Cynulliad i fod yn rhan o'r broses benodi. Yn unol â hynny, mae'r rheoliadau yn caniatáu i Aelod Cynulliad a enwebwyd gan bwyllgor perthnasol i fod yn aelod o'r panel dethol a fydd yn cyfweld ag ymgeiswyr ac yn gwneud argymhellion i'r Prif Weinidog ynghylch y penodiad. Mae'r rheoliadau yn diffinio "pwyllgor perthnasol" i olygu un o bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yr estynnir gwahoddiad iddo gan Weinidogion Cymru i enwebu. I'r perwyl hwn, ar 20 Mehefin 2011, ysgrifennais at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes yn gwahodd enwebiad. Pan estynnais wahoddiad i'r Pwyllgor Busnes i enwebu, nid oedd unrhyw bwyllgor arall wedi'i sefydlu. Serch hynny, rwyf nawr yn cydnabod ei bod hi'n fwy priodol i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol sydd newydd ei ffurfio ac sydd â chyfrifoldeb dros faterion polisi y Gymraeg, i gynnig yr enwebiad.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i fwrw ymlaen gyda'r broses benodi a'n dymuniad yw cynnull y cyfarfod cyntaf o'r panel dethol yng nghanol Gorffennaf i drafod swydd-ddisgrifiad y Comisiynydd a'r trefniadau ar gyfer y broses benodi. O ystyried nad oes llawer o amser, Roeddwn wedi gofyn i'r Pwyllgor Busnes enwebu aelod erbyn 5 Gorffennaf, fan hwyraf. Byddem yn ddiolchgar pe baech yn medru rhoi gwybod os ydych yn rhagweld anhawster o ran cael enwebiad gan eich Pwyllgor erbyn y dyddiad hwn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

O gofio y bydd gofyn i aelodau'r panel dethol asesu gwybodaeth yr ymgeiswyr o'r Gymraeg a'u gallu yn yr iaith, byddai'n ddefnyddiol pe bai modd i'r Aelod Cynulliad a enwebir weithio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Rwy'n edrych ymlaen at weithio gydag Aelodau'r Cynulliad wrth inni symud at benodi'r Comisiynydd ac i'w cefnogi wrth iddo ef neu hi ymgymryd â'r rôl allweddol hon a fydd yn gwneud cyfraniad pwysig o safbwynt hybu'r Gymraeg,

Yn gywir



**Leighton Andrews AC / AM**

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills

Jane Hutt AC / AM
Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Minister for Finance and Leader of the House

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Assembly Members

4 July 2011

Dear Colleagues,

**UK GOVERNMENT CONSULTATION ON THE REFORM OF THE EQUALITY AND HUMAN RIGHTS COMMISSION**

I have written to the Home Secretary, Theresa May MP, giving the Welsh Government response to the consultation paper 'Building a Fairer Future: Reform of the Equality and Human Rights Commission'.

We enjoy an effective working relationship with the Wales office of the Equality and Human Rights Commission and its work is very much valued by Welsh Ministers, stakeholders and citizens.

The consultation document does acknowledge the importance of the Commission retaining a strong and distinct presence in Wales and the need to consult the Welsh Government in this regard. Work on equality in Wales needs to be progressed within the very distinct constitutional, legal and policy context that is developing here to meet the needs and circumstances of Wales.

The regulations that the National Assembly has made under the Equality Act 2010 means that the law on equality is now different in Wales to that in England. The Commission's presence in Wales needs to reflect the distinctiveness of this context.

I enclose a copy of the letter for your information.

Jane

**Jane Hutt AC / AM**

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Minister for Finance and Leader of the House

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Jane Hutt AC / AM
Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty
Minister for Finance and Leader of the House

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref SF/JH/0000/11

Rt Hon Theresa May MP
Minister for Woman and Equalities
Government Equalities Office
Eland House
Bressenden Place
London
SW1E 5DU

29 June 2011

Dear Theresa,

**CONSULTATION ON THE FUTURE SHAPE OF THE EQUALITY AND HUMAN RIGHTS COMMISSION**

Thank you for your letter dated 21 March to Carl Sargeant AM, the then Minister for Social Justice and Local Government advising of the launch of the consultation 'Building a fairer Britain: Reform of the Equality and Human Rights Commission' which sets out the UK Government's plans to reform the Commission,

I am responding on behalf of the Welsh Government in my capacity as Minister for Finance and Leader of the House with responsibility for equality and inclusion matters.

You will be aware from previous correspondence that here in Wales we enjoy a very effective working relationship with the Wales office of the Equality and Human Rights Commission and its work is very much valued by Welsh Ministers. I am pleased that the consultation document acknowledges the importance of the Commission retaining a strong and distinct presence in Wales and the need to consult the Welsh Government in this regard. Work on equality in Wales needs to be progressed within the very distinct constitutional, legal and policy context that is developing here to meet the needs and circumstances of Wales. For instance, the regulations that the National Assembly has made under the Equality Act 2010 means that the law on equality is now different in Wales to that in England. The Commission's presence in Wales needs to reflect the distinctiveness of this context.

Your officials have heard first-hand from stakeholders in Wales, including the police, of the practical value that has been delivered by the Commission's office here, in working with them to promote equality. The Commission's office has earned itself a place in the

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

normal fabric of how things are done here, and its pro-active work in partnership with other organisations closely complements its regulatory functions. The feeling among stakeholders here is that the case for narrowing the legislative framework for the Commission's work has not been adequately made out, and there would be great concern among stakeholders in Wales if the changes forced the Commission to curtail the practical good work it has been doing. I would strongly underline these concerns.

I am also very concerned that in discussing accountability, Chapter 3 of the consultation document ignores the Commission's relationship with Welsh Ministers, and to the National Assembly and how this might be taken into account in future arrangements for accountability. These are key issues that must be addressed.

There is major concern among stakeholders in Wales about the potential effectiveness of the new equality and human rights helpline. The consultation document helpfully recognises that the helpline will need to be available through the medium of Welsh, but the issues go much wider. It will be necessary, for instance, for the helpline to provide advice which recognises the distinct legal context on equality in Wales, and policy initiatives here. I therefore think it is important that the specification for the helpline should be subject to common agreement between the UK Government and the devolved administrations in GB.

There is also deep concern that the effectiveness of the helpline will be very limited unless it is able to refer people on to good quality local providers of face-to-face advice. The Commission has been helping to fund such local advice, and the cutbacks to its budget will aggravate the weaknesses in local provision. This is an example of a more general concern, that the cuts in funding being made by the UK Government in both EHRC and Home Office will have a deeply damaging impact on the valuable work being done by the third sector.

It is very important that an appropriate proportion of the new grants programme that will be run by the Government Equalities Office, is spent in Wales; and that there is on-going liaison between our officials to get the best value for money from such spend.

Yours,

Jane

**Jane Hutt AC / AM**

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty
Minister for Finance and Leader of the House

Copies of this letter go to:
First Minister, Carwyn Jones AM
Nicola Sturgeon MSP, Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Health, Wellbeing and Cities Strategy
Cabinet Office Minister Francis Maude MP